



YMCHWILIAD PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU I BOLISI MOROL YNG NGHYMRU

TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG GAN GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU Medi 2012

Cynnwys

1.	CYFLWYNIAD A THROSOLWG	2
2.	YMATEB I YSTYRIAETHAU PENODOL YR YMCHWILIAD	3
2.1	Cynnydd â chynlluniau gofodol morol i Gymru	3
2.2	Statws ardaloedd morol dan warchodaeth yng Nghymru a rôl parthau cadwraeth morol	10
2.3	Swyddogaethau trwyddedu morol a physgodfeydd Llywodraeth Cymru	10
2.4	Gweithredu'r prif Gyfarwyddebau Ewropeaidd	13
2.5	Cydweithredu a chydgysylltu rhwng gweinyddiaethau	17
2.6	Adnoddau ariannol a staff	18
2.7	Cynnwys rhanddeiliaid	20

Atodiadau

Atodiad 1:	Tystiolaeth o newidiadau yn yr amgylchedd morol	22
Atodiad 2:	Map o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru	24
Atodiad 3:	Cylchoedd adrodd a gofynion Ardaloedd Morol dan Warchodaeth	25
Atodiad 4:	Argymhellion y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth	27

1. CYFLWYNIAD A THROSOLWGW

- 0.0.1 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn croesawu'r ymchwiliad pwysig ac amserol hwn. Dengys tystiolaeth wyddonol dda bod cyflwr moroedd y byd, y Deyrnas Unedig a Chymru wedi dirywio yn ystod y 50 i 100 mlynedd diwethaf (gweler Atodiad 1). O ganlyniad, mae materion morol wedi cael lle uchel ar agenda'r Undeb Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymru. Cyngor y Cyngor Cefn Gwlad, a'r farn sy'n cael ei rhannu gan lawer, yw bod angen rhyw fath o fframwaith rheoli sy'n seiliedig ar ecosystemau yn awr er mwyn gwrthdroi'r patrwm negyddol cyffredinol hwn.
- 0.0.2 Mae cwmpas eang yr ymchwiliad hwn yn caniatáu archwiliad o feysydd allweddol polisi morol, llywodraethu a deddfwriaeth sydd â'r potensial, fel pecyn integredig, i ddiogelu ac adfer iechyd ein moroedd a sicrhau defnydd cynaliadwy o foroedd Cymru.
- 0.0.3 Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw ymgynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â gwarchod natur. Rydym yn hybu amgylchedd, tirweddau a dyfroedd morol Cymru fel ffynonellau o gyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sail i weithgaredd economaidd a chymdeithasol ac fel lleoedd ar gyfer dysgu a hamddena. Ein hamcan yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb sy'n byw yng Nghymru. O ganlyniad, mae gan y Cyngor Cefn Gwlad rôl gefnogi, cynghori a chyflawni allweddol i'w chwarae yn y rhan fwyaf o'r meysydd gwaith y mae'r Pwyllgor yn eu harchwilio.
- 0.0.4 Mae gan y Cyngor Cefn Gwlad brofiad helaeth o gasglu a dehongli tystiolaeth. Rydym yn cadw, ac yn dal i gasglu, llawer iawn o ddata y gellir eu defnyddio i gefnogi gwaith cynllunio a rheoli morol. Mae gennym hefyd brofiad helaeth o godi ymwybyddiaeth a datblygu partneriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae gennym wybodaeth arbenigol sefydledig a chydnybodedig ynglŷn â'r amgylchedd morol y byddwn yn ei defnyddio wrth ddarparu'n cyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill, gan gynnwys:
- Cyflawni amcanion polisi morol y Llywodraeth
 - Statws yr amgylchedd morol a blaenoriaethau rheoli, gan gynnwys safleoedd dan warchodaeth
 - Effeithiau posibl a gwir effeithiau ar yr amgylchedd morol a sut y gellir osgoi neu liniaru'r rhain
- 0.0.5 Mae gan y Cyngor Cefn Gwlad ddiddordeb uniongyrchol yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel Deddf y Môr) a phrofiad o'i gweithredu, yn enwedig camau cynllunio a chadwraeth. Rydym wedi rhoi cyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r angen am fframwaith deddfwriaethol addas i'r diben ar gyfer yr amgylchedd morol, gan gynnwys mesurau ar gyfer safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a phwerau i alluogi cynllunio morol. Fel rhan o Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru, rydym hefyd yn gweithio gydag eraill i ddarparu cyngor integredig i'r Llywodraeth ar feysydd gweithredu polisi morol pwysig.

- 0.0.6 Fel ymgynghorydd statudol y Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â gwarchod natur mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ymwneud llawer iawn â gweithredu darpariaethau gwarchod natur Deddf y Môr. Mae gennym gylch gwaith morol eang, a theimlwn fod gan y Cyngor Cefn Gwlad ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gwaith cynllunio morol yng Nghymru drwy ddarparu cyngor a thystiolaeth i'r broses gynllunio.
- 0.0.7 Mae gan y Cyngor Cefn Gwlad rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i gyflawni rhwymedigaethau morol yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar ac agweddau ar y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau pwysig hyn. Rydym yn cydnabod bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd rôl gyflawni bwysig yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi ac yn cyfeirio'r Pwyllgor at ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd i gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r meysydd hyn.
- 0.0.8 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn gweithio er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac mae gennym brofiad o weithredu egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn dilyn argymhelliad yr Undeb Ewropeaidd yn 2002. Rydym wedi rhoi cyngor ar Bolisi Morol Integredig yr Undeb Ewropeaidd sy'n darparu'r fframwaith polisi lefel uchel ar gyfer llywodraethu a datblygu morol ledled Ewrop, yn enwedig yng nghyswllt cynllunio gofodol morol.
- 0.0.9 Yn gyffredinol, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cymeradwyo'r cynnydd y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud hyd yn hyn drwy sefydlu polisi a fframwaith deddfwriaethol i reoli ein moroedd. Mae'r fframwaith hwn yn cael ei alluogi gan Ddeddf y Môr ac yn cael ei lywio gan Ddatganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig. Mae'r pwerau sydd mewn grym yn awr yn briodol hefyd er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r fframwaith Ewropeaidd ehangach a fwriadwyd gan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.
- 0.1.0 Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud â'r gwaith o gyflwyno'r ddeddfwriaeth a rhesymoli a chyfnerthu trefniadau llywodraethu, (er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cael pwerau a swyddogaethau ar gyfer cynllunio morol ym mharth Cymru, mae gwaith trwyddedu morol ar gyfer Cymru'n cael ei wneud yng Nghymru, mae'r gwaith rheoli pysgodfeydd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ac ati). Fodd bynnag, mae'r cynnydd wrth gyflawni rhai agweddau ar bolisi morol wedi bod yn araf.
- 0.1.1 Mae'n amlwg bod adnoddau ar gyfer cyflawni polisi morol yng Nghymru wedi cael effaith ar y cynnydd hyd yn hyn ac ar y cynnydd posibl yn y dyfodol.
- 0.1.2 Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru'n cynnig cyfle cyffrous a phwysig i integreiddio'r swyddogaethau cefnogi a chyflawni amrywiol sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Cyngor Cefn Gwlad ar hyn o bryd. Â digon o adnoddau gall y sefydliad newydd hwn roi llawer o gefnogaeth i'r Llywodraeth a phartneriaid eraill er mwyn gwireddu gweledigaeth y

Llywodraeth o foroedd a chefnforoedd glân, iach, diogel a chynhyrchiol yn llawn amrywiaethau biolegol.

2. YMATEB I YSTYRIAETHAU PENODOL YR YMCHWILIAD

2.1 Pa gynnydd a wnaed i ddatblygu cynlluniau gofodol morol ar gyfer Cymru?

- 0.1.3 Mae Cymru wedi bod mewn sefyllfa dda i ddatblygu cynllunio morol gan fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau rhagweithiol ac wedi gofyn am gyngor ar gynllunio gofodol morol gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru yn 2007. Fodd bynnag, ers cael pwerau cynllunio gofodol morol yn 2009 drwy Ddeddf y Môr, ychydig iawn o gynnydd a wnaed yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.
- 0.1.4 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau perthnasol yn ddiweddar, gan gynnwys ymgynghoriad ar y cyd y Llywodraeth ar y Datganiad Polisi Morol, ac ymgynghoriad cychwynnol Llywodraeth Cymru ar y broses gynllunio morol ar gyfer Cymru ym Mai 2011. Rydym hefyd wedi rhoi mewnbyn i is-grŵp cynllunio morol Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru.
- 0.1.5 Roeddem yn falch iawn o weld gweinyddiaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mabwysiadu Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig yn 2011, ac rydym yn awyddus i weld y cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer rheoli'n moroedd yn well, drwy ddulliau mwy integredig, yn cael eu gwireddu drwy gynllunio. Mae'n werth nodi ei bod bellach, ers mabwysiadu'r Datganiad Polisi Morol, yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i geisio sicrhau bod cynlluniau morol yn cael eu paratoi ar gyfer pob rhan o'r rhanbarth lle mae'r Datganiad Polisi Morol yn rheoli cynllunio morol.¹ O ran Llywodraeth Cymru, mae hyn yn golygu sicrhau ystyriaeth lawn i ranbarth dyfroedd arfordir a môr mawr Cymru² â chynlluniau morol.
- 0.1.6 Mae ein cyngor hyd yn hyn ar gynllunio morol wedi ymwneud yn bennaf â phwysigrwydd sefydlu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer gwaith cynllunio sy'n sicrhau dull integredig a chynhwysol. Rydym yn sylwi bod y pwerau cynllunio morol newydd yn cynnig cyfle pwysig i Lywodraeth Cymru wireddu'r dyheadau a nodwyd yn 'Cynnal Cymru Fyw', yn fwyaf arbennig o ran cynllunio'r defnydd o adnoddau a sicrhau gwasanaethau ecosystemau.
- 0.1.7 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cadw llawer iawn o ddata a thystiolaeth y disgwyliwn y byddant o fudd er mwyn datblygu cynlluniau morol. Yn achos llawer o'r rhain bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn trosi neu 'ddechongli'r' dystiolaeth sydd ar gael i ffurf a fydd yn ddefnyddiol i'r broses gynllunio, a gall hyn gymryd amser. Mae gennym hefyd dystiolaeth barhaus o anghenion. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi bod yn ymwneud â choladu a

¹ Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 – Adran 51(2).

² Diffinnir rhanbarthau dyfroedd arfordir a môr mawr Cymru yn Adran 322 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. Yn fyr, mae rhanbarthau dyfroedd arfordir a môr mawr Cymru gyda'i gilydd yn ymestyn o'r cymedr penllanw gorllanw allan i'r llinell ganol gyda gwledydd cyfagos.

chyflwyno'n data a'n tystiolaeth i gefnogi'r broses gynllunio morol yng Nghymru. Un canlyniad yw creu Cyfarwyddiadur Tystiolaeth Forol y Cyngor Cefn Gwlad.³ Fodd bynnag, oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â chynnydd gwaith cynllunio morol yng Nghymru, mae'n anodd cynllunio'n briodol er mwyn cyfrannu rhagor tuag at y broses gynllunio.

0.1.8 Mae cynllunio morol yn datblygu ledled y Deyrnas Unedig ac mae cefnogaeth glir i'r broses o hyd ar lefel yr Undeb Ewropeaidd.⁴ Yr un pryd, mae nifer o feysydd pwysig sy'n gysylltiedig â rheoli a chynllunio morol wedi bod yn symud ymlaen yng Nghymru, er enghraifft cynllunio a defnyddio ynni adnewyddadwy morol, rheoli pysgodfeydd a Phrosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru yn ddiweddar. Bydd Cymru'n elwa o ganlyniad i broses gynllunio morol a all ddarparu strwythur, a pholisïau, sy'n integreiddio'r gwahanol brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau sectoraidd ac yn sicrhau bod pob gweithgaredd yn yr amgylchedd morol yn cyfrannu tuag at weledigaeth gyffredin sy'n cael ei chefnogi gan amcanion a blaenoriaethau clir.

2.2 Beth yw statws ardaloedd morol dan warchodaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, a pha rôl a ddylai'r parthau cadwraeth morol newydd ei chael o ran y rhwydwaith hwn o ardaloedd dan warchodaeth?

0.1.9 Mae rhwydwaith cydlynol, wedi'i reoli'n dda, o ardaloedd morol dan warchodaeth yn rhan hollbwysig o amgylchedd morol iach wedi'i gynllunio'n dda, ac yn offeryn hanfodol er mwyn sicrhau statws amgylcheddol da dan Gyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Yn gysylltiedig â hyn, mae sicrhau cyfres gydlynol o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sy'n cael eu rheoli'n dda yng Nghymru hefyd yn bwysig er mwyn helpu i weithredu'r rhaglen Cymru Fyw a dulliau rheoli sy'n seiliedig ar ecosystemau. Mae'n bwysig felly ein bod yn dal i wella ein dealltwriaeth o gyflwr Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru, a materion sy'n effeithio ar eu cyflwr.

0.2.0 Mae gan Gymru nifer o ardaloedd morol dan warchodaeth sy'n cynrychioli blynyddoedd o waith ac ymrwymiad. Gyda'i gilydd, mae cyfanswm o 125 Ardal Forol dan Warchodaeth yng Nghymru, sy'n 35% o foroedd Cymru. Mae Blwch 1, drosodd, yn cynnwys crynodeb o'r mathau o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sydd yng Nghymru, ynghyd â'u niferoedd a'u maint ac mae'r Ardaloedd Morol dan Warchodaeth presennol i gyd i'w gweld ar fap yn Atodiad 2. Mae'r safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i rwydwaith Ardaloedd Morol dan Warchodaeth y Deyrnas Unedig.

0.2.1 Er hyn, nid yw pob un o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth Cymru mewn cyflwr da ac mae angen gwneud rhagor o waith cyn y bydd gan Gymru

³ Mae Cyfeiriadur Tystiolaeth Forol y Cyngor Cefn Gwlad i'w weld ar ei wefan:

<http://www.ccg.gov.uk/landscape--wildlife/managing-land-and-sea/marine-evidence-directory.aspx?lang=cy-gb>

⁴ Mae cynllunio gofodol morol wedi cael ei hybu a'i gefnogi'n uniongyrchol ar lefel yr Undeb Ewropeaidd drwy gyfres o gyfathrebiadau gan y Comisiwn gan gynnwys: *An Integrated Maritime Policy for the European Union*, 2007; *Roadmap for Maritime Spatial Planning: Achieving Common Principles in the EU*, 2008; a chyfathrebiad ar gynllunio gofodol morol yn yr UE yn 2010.

gasgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sy'n rhoi sylw priodol i faterion ecolegol ac yn cael eu rheoli'n dda.

0.2.2 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cynnal ac yn cyfrannu tuag at gylchoedd adrodd amrywiol ar fathau o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth. Mae manylion y cylchoedd adrodd i'w gweld yn Atodiad 3. Dangosodd adroddiadau yn y gorffennol nad oedd cyfran helaeth o nodweddion arfordirol a morol mewn cyflwr ffafriol.

0.2.3 **ACA:** Mae Erthygl 17 yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn nodi y dylai aelod-wladwriaethau adrodd ar gamau a gymerwyd a'u canlyniad o ran statws cadwraeth i rywogaethau a chynefinoedd sy'n cael eu rhestru yn Atodiadau'r Gyfarwyddeb. (Am ragor o fanylion am ofynion adrodd Erthygl 17 gweler Atodiad 3.) Cynhaliwyd y rownd adrodd ddiweddaraf dan Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn 2007. Bryd hynny, adroddwyd bod 53% o'r nodweddion rhywogaethau a 46% o'r nodweddion cynefinoedd mewn cyflwr ffafriol ac adroddwyd bod 100% o'r rhywogaethau a 79% o'r cynefinoedd mewn statws cadwraeth anffafriol (mae statws cadwraeth yn fesur o sicrwydd rheolaeth er mwyn cynnal neu wella cyflwr).

0.2.4 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wrthi ar hyn o bryd yn paratoi data i'w cyflwyno i drydedd rownd adrodd Erthygl 17 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Cynhelir y rowndiau hyn bob chwe blynedd a bydd y nesaf yn 2013. Mae gwaith i gyfrannu tuag at y rownd adrodd hon yn dal i fynd rhagddo, ond mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y rhan fwyaf o'r nodweddion, er gwaethaf rhywfaint o welliant yn eu cyflwr mewn rhai lleoedd, yn yr un cyflwr neu mewn cyflwr gwaeth ac yn yr un statws cadwraeth neu mewn statws cadwraeth gwaeth; fodd bynnag, nid yw'r crynodeb hwn wedi cael ei gadarnhau eto gan ddadansoddiad llawn o'r data.

0.2.5 Mae'r casgliad o bwerau newydd a grëwyd gan Ddeddf y Môr (pysgodfeydd, gorchmynion gwarchod natur, parthau cadwraeth morol, cynllunio morol a thrwyddedu) mewn theori yn gwella'n gallu i ddarparu sicrwydd rheolaeth ar gyfer ein hardaloedd cadwraeth arbennig, a dylai hynny arwain at welliant yn eu statws cadwraeth. Mae'n bosibl bod yr arwyddion cynnar nad yw'r statws cadwraeth wedi gwella ers rownd adrodd ddiwethaf Erthygl 17 yn 2007 yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn dal yng nghamau cynnar gweithredu'r pwerau newydd hyn. Mae'r diffyg newid mewn cyflwr safleoedd a statws cadwraeth hefyd yn dangos faint o amser y gall ei gymryd i wneud newidiadau rheoli sylweddol, hirdymor ac, o ganlyniad, i gofnodi effaith fesuradwy.

Blwch 1: Crynodeb o faint Ardaloedd Morol dan Warchodaeth ym Moroedd Cymru (Cymedr Penllanw i 12 milltir forol)

Nifer y safleoedd

ACA	= 11
AGA	= 6
SoDdGA	= 103
Ramsar	= 4
GNF	= 1

Cyfanswm yr Ardaloedd Morol dan Warchodaeth = 125

Cyfran o Foroedd Cymru mewn: Ardaloedd Morol dan Warchodaeth

	= 35.08%
ACA	= 31.41%
AGA	= 8.08%
SoDdGA	= 2.64%
Ramsar	= 1.21%
GNF	= 0.08%

- 0.2.6 **SoDdGA:** Yn 2006 cynhaliwyd ‘Adolygiad Cyflym’ i asesu cyflwr SoDdGAau Cymru. Yn yr adolygiad, roedd 73% o’r nodweddion cynefinoedd rhynglanw mewn cyflwr ffafriol. Dylid nodi bod yr wybodaeth ddiweddaraf a ddefnyddiwyd i asesu rhai o’r safleoedd yn dyddio o’r flwyddyn 2000 a’i bod yn bosibl bod y canlyniadau wedi newid.
- 0.2.7 Ceir cylchoedd adrodd hefyd ar gyfer safleoedd Ramsar, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Pharthau Cadwraeth Morol. Nid oes adroddiadau am Barthau Cadwraeth Morol wedi’u cyflwyno eto, ac nid yw’r ddau gyntaf, hyd yn hyn, wedi darparu’r math o ddata manwl am gyflwr safleoedd morol yng Nghymru a fyddai o gymorth i ymchwiliad y Pwyllgor.
- 0.2.8 Offeryn allweddol er mwyn deall statws Ardaloedd Morol dan Warchodaeth a nodi blaenoriaethau yng Nghymru fydd dyletswydd adrodd Deddf y Môr, bob chwe blynedd. Mae’n ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2012, a phob chwe blynedd ar ôl hynny, am ei chyfraniad i rwydwaith Ardaloedd Morol dan Warchodaeth y Deyrnas Unedig (gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion). Dylai’r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae’r Cyngor Cefn Gwlad yn paratoi tystiolaeth a chynghor i Lywodraeth Cymru i gefnogi’r ddyletswydd adrodd hon.
- 0.2.9 Mae’r Cyngor Cefn Gwlad hefyd wedi datblygu Cronfa Ddata o Gamau Gweithredu ar gyfer Safleoedd Arbennig yng Nghymru. Mae’r gronfa ddata hon, sy’n rhan o Brosiect Safleoedd Arbennig y Cyngor Cefn Gwlad, yn cofnodi argymhellion y Cyngor Cefn Gwlad ynglŷn ag anghenion rheoli ardaloedd dan warchodaeth yng Nghymru.⁵ Mae’r Cyngor Cefn Gwlad wedi defnyddio’r gronfa ddata i nodi materion strategol ar draws Cymru sy’n effeithio ar gyflwr safleoedd mewn nifer o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth. Rydym yn gweithio er mwyn nodi camau blaenoriaeth i’w cymryd er mwyn mynd i’r afael â’r materion hyn. Mae materion ar draws Cymru’n cynnwys:
- Diwydiannau pysgod môr
 - Llygredd a gwastraff, gan gynnwys sbwriel
 - Amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd
 - Rhywogaethau estron
 - Datblygiadau a gweithgareddau newydd
 - Newid yn yr hinsawdd
- 0.3.0 Mae’n amlwg o’r meysydd gwaith amrywiol a drafodwyd uchod bod gan Gymru gryn dipyn o waith i’w wneud eto er mwyn sicrhau casgliad iach o ardaloedd morol dan warchodaeth yng Nghymru, sy’n cyflawni eu hamcanion.

⁵ Nod cyffredinol y Prosiect Safleoedd Arbennig yw datblygu gallu’r Cyngor Cefn Gwlad a sefydliadau sy’n bartneriaid i reoli rhaglen waith effeithlon ac effeithiol a newid polisi a fydd yn cyflawni Amcan 21 o Strategaeth Amgylcheddol Cymru.

Materion i fynd i'r afael â hwy er mwyn gwella statws Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru

- 0.3.1 Y ffordd fwyaf pragmatig i Gymru gyfrannu'n llawn tuag at rwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth ar lefel y Deyrnas Unedig a thuag at warchod a gwella amgylchedd morol Cymru yw drwy sicrhau:
- Bod safleoedd dan reolaeth effeithiol a diogel a
 - Bod y casgliad o safleoedd yng Nghymru'n bodloni egwyddorion dylunio rhwydwaith allweddol.
- 0.3.2 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn nad yw'r casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sydd yng Nghymru yn cyfrannu cymaint ag y gallent ar hyn o bryd tuag at y gwaith o warchod a gwella amgylchedd morol Cymru a sicrhau rhwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn y Deyrnas Unedig. Dau faes allweddol lle mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn bod angen rhagor o waith i wella statws ein Hardaloedd Morol dan Warchodaeth a'u cyfraniad i'r amgylchedd morol ehangach yw:
- Gwella'r modd y rheolir safleoedd, a
 - Gwella'n dealltwriaeth o'r graddau y mae'r casgliad presennol o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn bodloni egwyddorion dylunio rhwydwaith allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth, dyblygu, cysylltiad a gwahanol lefelau o amddiffyniad
- 0.3.3 **Rheoli safleoedd:** Cyn hyn, mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cynghori, oherwydd maint y casgliad presennol o Ardaloedd Cadwraeth Morol yng Nghymru, y dylai'n Hardaloedd Morol dan Warchodaeth roi blaenoriaeth i sicrhau bod y safleoedd presennol yn cael eu rheoli mewn ffordd ffafriol. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth cynhaliodd y Cyngor Cefn Gwlad adolygiad yn ddiweddar o'r modd y rheolir Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru.⁶ Daeth yr adroddiad gwerthuso⁶ i'r casgliad hwn: *"It is clear that while there has been, and continues to be positive management of some Welsh MPAs (by CCW, other statutory bodies, voluntary groups and individuals), there remains inconsistency in approach, resource allocation and involvement of management authorities as well as a lack of strategic steer across the suite of Welsh MPAs. These issues are hampering delivery of effective management across all MPAs in Wales"*.
- 0.3.4 Un o brif gasgliadau'r adolygiad hwn yw'r angen am arweiniad cryfach wrth reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth er mwyn cael dull mwy ystyrion a phenodol o reoli'r rhwydwaith. Arweiniodd yr adolygiad at argymhellion lefel uchel gan y Cyngor Cefn Gwlad i Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 4) gan

⁶ Cyflwynir canfyddiadau'r Adolygiad o Reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth mewn dau adroddiad. Trosolwg o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru yw'r cyntaf, a gwerthusiad o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yw'r ail. Mae'r adroddiadau ar gael gan y Cyngor Cefn Gwlad:

Adroddiad trosolwg: M. Hatton-Ellis, L. Kay, K. Lindenbaum, G. Wyn, M. Lewis, M. Camplin, A. Winterton, A. Bunker, S. Howard, G. Barter a J. Jones, 2012. *MPA Management in Wales 1: Overview of current MPA management in Wales and a summary of new MPA management tools*. Adroddiad Gwyddor Môr CCGC 12/06/01, 56tt, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.

Adroddiad gwerthuso: M. Hatton-Ellis, L. Kay, M. Lewis, K. Lindenbaum, G. Wyn, A. Winterton, A. Bunker, S. Howard, G. Barter, M. Camplin a J. Jones, 2012. *MPA Management Report 2: Assessment of current MPA management in Wales*. Cyfres Gwyddor Môr CCGC: 12/06/03, 78tt, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.

gynnwys argymhellion i sefydlu trefniadau llywodraethu newydd er mwyn rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth, gan gynnwys Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth Cymru, yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru o bosibl. Nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ffordd ymlaen ar adeg ysgrifennu hyn.

- 0.3.5 **Egwyddorion dylunio rhwydwaith:** Mae nifer o wahanol egwyddorion, sy'n cael eu cydnabod yn gyffredin, ac sy'n cael eu defnyddio i ddylunio rhwydweithiau Ardaloedd Morol dan Warchodaeth ac i asesu eu cydlyniant ecolegol cyffredinol, gan gynnwys: cynrychiolaeth o rywogaethau a chynefinoedd yn ardal y rhwydwaith; dyblygu nodweddion; cysylltiad rhwng safleoedd, a gwahanol lefelau o amddiffyniad. Er bod cynrychiolaeth nodweddion ar draws Cymru ac fel rhan o'r rhwydwaith ehangach yn ymddangos yn dda, mae rhagor o waith i'w wneud eto er mwyn creu casgliad cwbl gydlynol o safleoedd. Yn fwyaf arbennig, mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb Adar yn llawn yn yr amgylchedd morol ledled y Deyrnas Unedig. (Ymdrinnir â hyn yn adran 2.4, paragraffau 0.6.4 – 0.6.7). Yn ychwanegol at hyn, nid oes gennym ddealltwriaeth lwyr eto o'r graddau y mae mesurau cadwraethol mewn safleoedd mawr fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn diogelu nodweddion eraill nad yw'r safle wedi ei ddynodi o'u herwydd, felly, nid oes gennym ddealltwriaeth lawn eto o ba mor gynrychioladol yw ein casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth.
- 0.3.6 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cynghori'n gyson y dylai rhwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth gynnwys amrywiaeth o lefelau amddiffyn ac ar hyn o bryd nid oes gennym safle sydd â lefel uchel o amddiffyniad ar gyfer pob cynefin a rhywogaeth sy'n bresennol rhag effeithiau sy'n cael eu hachosi gan ddyn. Trafodir lefelau amddiffyniad ymhellach yn yr adran nesaf sy'n ymdrin â Pharthau Cadwraeth Morol.

Rôl Parthau Cadwraeth Morol

- 0.3.7 Pwrpas y dynodiad Parth Cadwraeth Morol yw gwarchod (a) fflora neu ffawna morol, (b) cynefinoedd neu fathau o gynefinoedd morol, neu (c) nodweddion o ddiddordeb daearegol neu geomorffaidd.
- 0.3.8 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cynghori y dylid defnyddio pŵer y Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru i sicrhau nifer bychan o safleoedd gwarchodedig iawn. Rhoddwyd y cyngor hwn ar sail asesiad o'r dystiolaeth wyddonol sy'n dangos y gall safleoedd gwarchodedig iawn, os ydynt yn y lleoliadau iawn ac yn cael eu rheoli'n effeithiol, ddarparu manteision sylweddol a mesuradwy o safbwynt bioamrywiaeth yn ogystal â gwella ein dealltwriaeth o'r amgylchedd morol ac effaith dyn arno.
- 0.3.9 Mae'r cyngor i ddefnyddio pŵer y Parthau Cadwraeth Morol i greu rhai safleoedd gwarchodedig iawn hefyd yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o ymrwymadau a bwriad polisi ehangach ar y pryd. Cydnabyddir gwerth rhwydwaith o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sy'n cynnwys lefelau amrywiol o amddiffyniad er mwyn cyfrannu tuag at iechyd yr amgylchedd morol ehangach drwy nifer o ymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan

gynnwys y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.⁷ Bwriad uniongyrchol y gofyniad yng Nghyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, i gyfrannu tuag at rwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth, yw cyfrannu tuag at y gwaith o gyflawni amcanion y Confensiwn.

- 0.4.0 Yn ystod datblygiad Deddf y Môr a'i hynt drwy'r senedd cafwyd llawer iawn o drafodaethau ynglŷn â'r angen am safleoedd gwarchoddedig iawn yn rhwydwaith Ardaloedd Morol dan Warchodaeth y Deyrnas Unedig. Gwnaethpwyd argymhelliad clir gan y Cydbwyllgor (a oedd yn cynnwys aelodau o Gymru) a fu'n craffu ar y Mesur Morol cyn iddo ddod yn ddeddfwriaeth y dylai'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth gynnwys Gwarchodfeydd Morol Gwarchoddedig Iawn.⁸ Yn ystod Ail Ddarlleniad y Mesur yn Nhŷ'r Cyffredin, cadarnhaodd y Gweinidog fwriad y Llywodraeth i ddynodi safleoedd gwarchoddedig iawn fel rhan o'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth: *'MCZs will include areas that have not only a high level of protection, but a high level of protection where extractive industries, for example, are prohibited.'*⁹ Mae Deddf y Môr yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd am ei chyfraniad i rwydwaith y Deyrnas Unedig o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth bob 6 blynedd, gan gynnwys faint o Barthau Cadwraeth Morol, lle mae cloddio a dyddodi wedi cael ei wahardd, sydd wedi cael eu creu.
- 0.4.1 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cyfrannu tuag at brosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru. Ein rôl yn ystod Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru oedd darparu cyngor a chefnogaeth dechnegol i'r Grŵp Cyngori Technegol, eistedd ar y Grŵp Llywio, a mynd i'r Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Dinasyddion fel sylwedydd. Mae rhai materion sy'n ymwneud â Phrosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru'n cael eu trafod ymhellach yn adran 2.7 ar ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 0.4.2 Bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn dal i gyfrannu tuag at waith sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r dynodiad Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru, a byddwn yn dal i ddefnyddio a datblygu ein hymchwil a'n cyngor hyd yn hyn.
- 0.4.3 Yn fyr, dylid canolbwyntio'n bennaf yng Nghymru ar y casgliad presennol o safleoedd a gwella'r modd y maent yn cael eu rheoli. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn dal i wella'n dealltwriaeth o gydlyniant ecolegol y casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru, o ran sylw a chadwraeth ddigonol ar gyfer nodweddion yn nyfroedd Cymru, a hefyd o ran lefelau priodol o amddiffyniad.

⁷ Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn ymrwymo gwladwriaethau i sicrhau rhwydwaith cydlynol o ardaloedd morol dan warchodaeth a ddylai gynnwys safleoedd amldefnydd a safleoedd gwarchodaeth lem.

⁸ Tŷ'r Arglwyddi / Tŷ'r Cyffredin (2008) *Joint Committee on the draft Marine Bill – First Report* 16 Gorffennaf 2008

⁹ <http://www.parliament.uk/business/publications/hansard/>

Gwarchodfa Natur Forol Sgomer

- 0.4.4 Mae gan y Cyngor Cefn Gwlad gyfrifoldeb statudol i reoli Gwarchodfa Natur Forol Sgomer dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad (a'r Cyngor Gwarchod Natur cyn hynny) wedi bod yn ceisio gwella cadwraeth a dealltwriaeth o'r Warchodfa Natur Forol, ar y cyd â defnyddwyr lleol a'r gymuned leol, ers ei dynodi yn 1990. O ganlyniad, wrth ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu defnyddio'r dynodiad Parth Cadwraeth Morol, mae gan y Cyngor Cefn Gwlad ddiddordeb arbennig mewn sicrhau dyfodol Gwarchodfa Natur Forol Sgomer. Mae'n rhaid i Ynys Sgomer gael ei throï'n Barth Cadwraeth Morol rywbryd, a bydd hyn yn digwydd yn awtomatig pan fydd Llywodraeth Cymru'n dechrau ar ddarpariaethau'r Parthau Cadwraeth Morol yn Neddf y Môr.¹⁰
- 0.4.5 Byddai'r Cyngor Cefn Gwlad yn hoffi rhoi ystyriaeth lawn i'r math o amddiffyniad a rheolaeth a roddir i Sgomer wrth ei throï'n Barth Cadwraeth Morol. Er bod Deddf y Môr yn caniatáu i Sgomer gael ei throï'n Barth Cadwraeth Morol â'i his-ddeddfau presennol yn cael eu cadw fel Gorchmynion Deddf y Môr, credwn y dylid manteisio ar y cyfle i archwilio ac o bosibl i gynyddu'r lefelau amddiffyn a rheoli yn Sgomer. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn dal yn ymrwymedig i'r gwaith o reoli Gwarchodfa Natur Forol/Parth Cadwraeth Morol Sgomer fel safle cadwraeth morol sydd wedi ei sefydlu ers tro, sy'n cael ei gefnogi'n dda, ac sy'n rhoi darlun cadarnhaol o sut y gall safleoedd sy'n cael eu rheoli'n lleol weithio.

2.3 Datblygiad swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â thrwyddedu morol a physgodfeydd ac a yw wedi bod yn effeithiol?

Trwyddedu morol

- 0.4.6 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cynghori yn y gorffennol nad pwy sy'n cyflawni swyddogaethau trwyddedu morol yng Nghymru yw'r peth pwysicaf ond sut y maent yn cael eu cyflawni; rydym yn dal i gredu hyn. Mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am Drwyddedu Morol yng Nghymru ac am ranbarth glannau Cymru yn unol â diffiniad Adran 113 o Ddeddf y Môr. Fel rhan o'r broses o resymoli gwaith llywodraethu morol a gwblhawyd yn ystod hynt Deddf y Môr drwy'r senedd, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi rhesymoli i bob pwrpas y system o roi caniatâd i lawer o weithgareddau morol. Mae'r system newydd i raddau helaeth wedi cymryd lle Rhan 2 o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985; Adran 34 o Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 a Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol a Chynefinoedd Naturiol (Echdynnu Mwynau drwy Dreillio Gwely'r Môr) (Cymru) 2007. Mae hefyd wedi dileu'r angen am ganiatâd ar wahân dan y Cod Cyfathrebu Electronig. Yn Ebrill 2010 daeth Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am weinyddu'r gwaith o reoleiddio gweithgareddau sydd wedi cael eu caniatáu dan Drwydded Deddf y Môr (a oedd yn arfer cael eu gweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru gan y Sefydliad Rheoli Morol).

¹⁰ Ni fydd darpariaethau'r Parthau Cadwraeth Morol ym Mhennod 1, Rhan 5 o Ddeddf y Môr yn dod i rym nes bydd Gweinidogion Cymru'n dechrau'r darpariaethau drwy orchymyn.

- 0.4.7 Rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cynghori Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithiau gweithgareddau sydd angen trwydded ar dreftadaeth naturiol. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar y math o ddulliau arolygu ac asesu sydd eu hangen er mwyn deall effeithiau posibl. Un ffactor sy'n cyfyngu ar ein gallu i wneud penderfyniadau ym maes trwyddedu morol yw'r ffaith mai ychydig iawn a wyddom yn aml am effeithiau datblygiadau ar yr amgylchedd morol. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon mewn ffordd ragweithiol, a chyflwynir enghreifftiau o dystiolaeth o effeithiau ar rywogaethau symudol ym Mluch 2.
- 0.4.8 O brofiad y Cyngor Cefn Gwlad, mae systemau a sefydlwyd gan Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol ac yn effeithlon. Ar gyfer prosiectau mwy cymhleth yn fwyaf arbennig, mae'n bwysig iawn bod materion amgylcheddol yn cael eu cwmpasu'n gynnar fel bod dyluniadau prosiectau'n gallu ystyried y rhain ac fel bod modd osgoi gwrthdaro yn nes ymlaen. Mae'r Uned Caniatadau Morol wedi gweithredu mewn modd rhagweithiol drwy annog datblygwyr i gwblhau'r astudiaethau a'r gwaith ymgynghori sydd ei angen er mwyn gwneud hyn.
- 0.4.9 O'n safbwynt ni, mae Llywodraeth Cymru felly wedi llwyddo i ddatblygu a chyflawni ei swyddogaethau trwyddedu morol ers ymgymryd â'r cyfrifoldeb, er mai prin iawn yw'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y swyddogaeth hollbwysig hon. Yn y dyfodol, fodd bynnag, bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu'r rôl ymhellach e.e. datblygu dulliau o asesu risg prosiectau, ailddefnyddio data a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod asesiad o brosiect a gwella mynediad at wybodaeth am ganiatadau prosiectau.
- 0.5.0 Y prif ffactor sy'n ein rhwystro rhag datblygu'r swyddogaeth drwyddedu ymhellach yw prinder adnoddau. Os bydd y swyddogaeth trwyddedu morol yn cael ei throsglwyddo i'r Corff Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru bydd yn hanfodol bod digon o adnoddau'n cael eu rhyddhau er mwyn dal i ddarparu a datblygu ymhellach y system drwyddedu sy'n cefnogi defnydd cynaliadwy o foroedd Cymru.

Swyddogaethau pysgodfeydd Llywodraeth Cymru

- 0.5.1 Cafodd swyddogaethau dau Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Cymru eu trosglwyddo i fod yn swyddogaethau mewnol gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Ers dechrau 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi recriwtio nifer o staff i rolau allweddol, ac maent wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ac yn cyflawni agweddau allweddol ar eu swyddogaethau mewn cysylltiad â Deddf y Môr 2009 a Chyfarwyddebau ehangach yr Undeb Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â chadwraeth. Er enghraifft, Gorchymyn Marchfisglod 2012 i amddiffyn riffiau marchfisglod gogledd Cymru rhag effeithiau offer symudol,¹¹ Gorchymyn

¹¹ Bwriad Gorchymyn Marchfisglod 2012, a fydd yn dod i rym yn ddiweddarach eleni, yw amddiffyn cynefin agored i niwed rhag effeithiau offer pysgota symudol. Mae ardaloedd o riffiau marchfisglod, sy'n un o rywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, i'w cael o fewn ac yn agos at Safleoedd Morol Ewropeaidd. Mae'n rhywogaeth sy'n tyfu'n araf ac sy'n cynnal amrywiaeth da o fywyd morol ond ychydig iawn ohonynt sydd ar ôl yn nyfroedd Cymru.

System Orlhain Cychod 2012¹² i helpu i orfodi Gorchymyn Cregyn Bylchog 2010 a Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011 sy'n rheoli pysgota masnachol am gocos.

- 0.5.2 Roedd cyflwyno Gorchymyn Cregyn Bylchog (Cymru) 2010 yn ddatblygiad pwysig iawn o safbwynt gwarchod natur. Mae hon yn ddeddfwriaeth gynhwysfawr sy'n rhoi sylw i Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd drwy amddiffyn nodweddion dynodedig yr amgylchedd morol a rhywogaethau symudol rhag effeithiau treillio am gregyn bylchog.

Blwch 2: Gwella'r sail dystiolaeth am rywogaethau symudol ar gyfer gwaith trwyddedu a chynllunio morol.

Mae gwybodaeth a data am ddsbarthiad, amlder a hanes bywyd rhywogaethau symudol (pysgod, adar a mamaliaid y môr) a'u sensitifrwydd i effeithiau gweithgareddau anthropogenig yn aml yn brin iawn a gall achosi anawsterau wrth geisio gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer rhywogaethau symudol a hwyluso ystyriaeth o effeithiau arnynt mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â chaniatâd morol a chynllunio morol. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi gwneud llawer o waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, er enghraifft:

1. Cynhyrchu haenau o dystiolaeth ofodol am rywogaethau symudol

Mae'r wybodaeth orau sydd ar gael am ddsbarthiad ac amlder adar a mamaliaid y môr yn nyfroedd Cymru wedi cael ei choladu i gynhyrchu haenau o dystiolaeth seiliedig ar GIS y gellir eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â chynllunio morol a chaniatadau. Cynhyrchwyd mapiau hefyd sy'n dangos sensitifrwydd cymharol a pha mor agored yw adar a mamaliaid y môr o amgylch Cymru i effeithiau gweithgareddau, ar sail eu bioleg, nodweddion hanes eu bywyd a'u statws cadwraethol. Mae'r haenau hyn o dystiolaeth wedi cael eu hymgorffori mewn prosesau cynllunio gofodol morol ar gyfer ynni adnewyddadwy morol ac mae potensial ehangach i'w cymhwyso i gynllunio gofodol morol yn gyffredinol.

2. Gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer effeithiau gweithgareddau

Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy morol yn her i'r broses trwyddedu morol, gan fod cymaint o ansicrwydd ynglŷn â'u heffaith bosibl ar yr amgylchedd, diffyg gwybodaeth ynglŷn â defnydd ohonynt mewn lleoedd eraill a'r rhagofalon sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth amgylcheddol. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi gweithio mewn modd rhagweithiol gydag Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru a Tidal Energy Ltd ar gynnig i ddefnyddio dyfais ffrwd llanw yn Swnt Dewi yn Sir Benfro. Drwy fabwysiadu trefniadau addasol, yn cael eu rheoli gan amodau gweithredu llym, ac yn amodol ar raglen fonitro wedi ei dylunio'n benodol, bydd data hollbwysig am ryngweithiadau agos rhwng dyfais weithredol a mamaliaid morol yn cael eu darparu am y tro cyntaf erioed yn unrhyw ran o'r byd.

¹² Mae Gorchymyn System Orlhain Cychod 2012, a fydd yn dod i rym yn ddiweddarach eleni ar flaen y gad o ran rheolaeth amser real gweithgareddau pysgodfeydd a allai effeithio ar nodweddion Ardal Benodedig Morol dan Warchodaeth yn y Deyrnas Unedig. Bydd y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol drwy ddeddfwriaeth i bob cwch sy'n erlyn pysgotwyr cregyn bylchog yng Nghymru gael system fonitro lloeren ar ei fwrdd. Bydd y system hon yn anfon gwybodaeth amser real i ystafell weithrediadau yn Swyddfa Pysgodfa Aberdaugleddau a fydd yn dangos ym mhle mae'r cychod cregyn bylchog yn gweithredu ac yn caniatáu i dasgau a roddir i asedau pysgodfeydd i ddibenion gorfodi gael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Bydd y system hon yn helpu i orfodi Gorchymyn Cregyn Bylchog 2010.

3. Datblygu fframwaith i asesu effeithiau ar boblogaethau o rywogaethau symudol
Efallai nad yw gweithgareddau neu brosiectau unigol yn fgythiad i gynnal poblogaethau o famaliaid y môr, ond gyda'i gilydd gallent gael effaith sylweddol ar eu hyfywedd hirdymor. Mae'r gwaith o asesu effeithiau o'r fath yn anos oherwydd ystod ddaearyddol eang nifer o boblogaethau o famaliaid, a all fod yn croesi ffiniau gweinyddol y Deyrnas Unedig. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn un o'r partneriaid a sefydlodd brosiect i ddatblygu fframwaith cytunedig ar draws y Deyrnas Unedig i asesu effeithiau posibl ynni adnewyddadwy morol ar boblogaethau o famaliaid morol, gan roi sylw i effeithiau prosiectau unigol, a hefyd i effeithiau cronus posibl nifer o brosiectau a gweithgareddau.

- 0.5.3 Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad strategol o holl ddeddfwriaethau pysgodfeydd Cymru. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu integreiddio a rhesymoli'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng ngogledd a de Cymru ers i'r hen bwyllgorau Pysgodfeydd Môr gael eu huno dan adain Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gweithio mewn partneriaeth â staff adolygiad deddfwriaethol pysgodfeydd Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder o safbwynt gwarchod natur yng nghyswllt deddfwriaeth bysgodfeydd arfaethedig a nodi mecanweithiau a phrosesau priodol er mwyn cyfyngu ar yr effeithiau hyn er enghraifft defnyddio trwydded gyfyngol i reoli'r bysgodfa cregyn bylchog yng Nghymru neu edrych ar effeithiau posibl rheolaeth ar sail cylchdro a pharthau ar gyfer y bysgodfa cregyn bylchog.
- 0.5.4 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad a Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai'r broblem fwyaf o ran yr ymarfer hwn (a rheoli gweithgareddau morol yn gyffredinol) yw'r ffaith nad oes llawer o wybodaeth ar gael i allu asesu effeithiau gweithgareddau pysgota'n effeithiol. Mae hwn yn faes y mae'r Cyngor Cefn Gwlad a Llywodraeth Cymru'n gweithio arno ar hyn o bryd drwy boblogaeth elfennau pysgodfeydd Cronfa Ddata Safleoedd Arbennig y Cyngor Cefn Gwlad (gweler paragraff 0.2.9). Drwy broses o flaenoriaethu effeithiau gweithgareddau pysgodfeydd ar sail tystiolaeth gyfredol bydd modd nodi meysydd risg neu faterion y mae angen ymchwilio ymhellach i'w heffeithiau, a meysydd lle gellid defnyddio pwerau rheoli pysgodfeydd i sicrhau gwelliannau cadwraeth.
- 0.5.5 Datblygodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Pysgodfeydd Cymru 2008 a chynlluniau gweithredu dilynol yn amlinellu i ba gyfeiriad y bydd pysgodfeydd yn mynd tan 2020. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn deall y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu yn ddiweddarach eleni gan fod llawer o ddatblygiadau wedi'u gwneud mewn polisi a deddfwriaeth forol yng nghydestun y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd er 2008. Bydd y strategaeth newydd yn ceisio creu cysylltiadau rhwng y gwahanol gynlluniau pysgodfeydd morol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd a'r rhai hynny fel y polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar ei newydd wedd a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2013. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn edrych ymlaen i ymwneud â'r adolygiad er mwyn adeiladu ar gynnydd a wnaethpwyd wrth reoli pysgodfeydd er budd y diwydiant a'r amgylchedd.

- 0.5.6 Mae cyfathrebiadau gan Defra yn ddiweddar yn dangos bod Defra'n awyddus i sefydlu dull newydd o gymhwysu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd i weithgareddau pysgota mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd. Byddant yn asesu gweithgareddau arfaethedig mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risgiau ar gyfer eu heffeithiau a defnyddio rheolaeth leol i gyflwyno deddfwriaeth yn ôl y galw i ddiogelu safleoedd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn defnyddio'r dull hwn mewn rhai ardaloedd gan eu bod wedi bod yn asesu effeithiau gweithgareddau pysgota ar sail Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer Gorchymyn Cregyn Bylchog (Cymru) 2010. Mae'r un broses yn cael ei defnyddio yn awr wrth ystyried deddfwriaeth bysgodfeydd a fydd yn cael ei chyflwyno yn ddiweddarach yn 2012 a chyda'r adolygiad o deddfwriaeth pysgodfeydd Cymru'n gyffredinol.
- 0.5.7 Mae llawer o waith i'w wneud eto er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau pysgodfeydd, yn enwedig mewn Ardaloedd Morol dan Warchodaeth, ond yn gyffredinol mae cynnydd graddol wedi'i wneud â gwelliannau wrth reoli pysgodfeydd ac effeithiau ar yr amgylchedd morol.

2.4 Pa gynnydd a waned gan Lywodraeth Cymru i weithredu cyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol?

- 0.5.8 Mae'r casgliad o Gyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol gyda'i gilydd yn darparu rhai o'n hoffer a'n strwythurau cadwraeth, rheolaeth a chynllunio pwysicaf. O ran y Cyngor Cefn Gwlad, mae'r prif gyfarwyddebau'n cynnwys y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar, Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn ogystal â chynlluniau polisi allweddol fel y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, Polisi Morol Integredig yr Undeb Ewropeaidd a'r Argymhellion ar gyfer Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.
- 0.5.9 Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn gyfle newydd a chyffrous i fynd i'r afael ag iechyd yr amgylchedd morol yn ei gyfarwydd drwy geisio sicrhau Statws Amgylcheddol Da, sy'n gyfystyr â defnydd cynaliadwy, yn holl ddyfroedd morol Ewrop. Ymddengys bod y Gyfarwyddeb hon yn cael ei gweld fwyfwy gan weinyddiaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel y prif ffactor sy'n ysgogi deddfwriaeth ym maes amddiffyn, gwarchod a rheoli'r môr.
- 0.6.0 Mae'r Cyfarwyddebau amrywiol i gyd mewn cyfnodau gwahanol ac rydym yn dal i ddysgu llawer o weithredu'r Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a basiwyd yn 1979 ac 1992 yn y drefn honno. Mae'r broses ddysgu barhaus hon a'r ffaith ein bod yn dal heb gael pob un o'n Hardaloedd Cadwraeth Arbennig, er enghraifft, mewn cyflwr a statws cadwraethol ffafriol, yn dangos faint o amser y gall ei gymryd i wireddu manteision arfaethedig llawn y deddfwriaethau Ewropeaidd pwysig hyn. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ymrwymiad ac adnoddau hirdymor.

Y Gyfarwydddeb Cynefinoedd

- 0.6.1 Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn ddeddfwriaeth bwysig ar gyfer yr amgylchedd ac, yn ystod y camau gweithredu deddfwriaeth presennol, yn darparu'n prif ddulliau o warchod a diogelu'r môr. Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, ynghyd ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig dan y Gyfarwydddeb Adar yn creu rhwydwaith Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd, ac maent yn gweithredu gyda'i gilydd i ddiogelu bioamrywiaeth bwysicaf ein moroedd a'n harfordir.
- 0.6.2 Gwelwyd cynnydd cynnar cryf wrth i safleoedd gael eu sefydlu - 11 ACA forol yn cynnwys ychydig dros 30% o foroedd Cymru. Mae Amcanion Cadwraeth¹³ wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer pob ACA yng Nghymru ac erbyn hyn mae gan nifer o safleoedd Gynlluniau Rheoli, neu maent wrthi'n eu datblygu.¹⁴ Mae gan nifer o'r ACAu mwyaf hefyd Grwpiau Awdurdodau Perthnasol sy'n datblygu'r Cynlluniau Rheoli ac yn goruchwyllo ac yn cydlynu eu swyddogaethau rheoli ar y cyd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn bartner allweddol yn Grwpiau Awdurdodau Perthnasol hyn, ac mae hefyd wedi darparu cyllid craidd i'r grwpiau hyn a swyddogion cefnogi.
- 0.6.3 Er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran maint y safleoedd, a strwythurau rheoli mewn rhai achosion, mae problemau'n ymwneud â rheoli safleoedd a chyflwr safleoedd ac, yn sgil hynny, â chyflawni amcanion cadwraeth. Mae'r materion hyn wedi cael eu trafod yn fanylach yn adran 2.2.

Y Gyfarwydddeb Adar

- 0.6.4 Gwnaethpwyd cynnydd cynnar da yng Nghymru, o'i gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, wrth ddynodi'r Ardal Gwarchodaeth Arbennig forol gyntaf ym Mae Caerfyrddin ar gyfer môr-hwyaid du sy'n gaeafu. Cafodd ei dosbarthu yn 2003. Dilynwyd hyn gan Ardal Gwarchodaeth Arbennig drawsffiniol Bae Lerpwl ar gyfer Trochyddion Gyddfgoch a Môr-hwyaid Du sy'n gaeafu yn 2010.
- 0.6.5 Er gwaetha'r ddau safle presennol, mewn cymhariaeth â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd, mae'r cynnydd yn ddiweddar â'r gwaith o weithredu'r Gyfarwydddeb Adar yn yr amgylchedd morol wedi bod yn gymharol araf ac mae'r rhwydwaith yn dal yn anghyflawn. Mae Cymru, er hynny, yn symud ymlaen ar gyflymder tebyg i wledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur yn arwain gwaith i geisio deall y dystiolaeth a'r angen am ragor o safleoedd ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi bod yn cyfrannu tuag at y gwaith hwn drwy'r Deyrnas Unedig er 2005.
- 0.6.6 Mae pedwar prif faes gwaith sy'n berthnasol i Gymru:
- i. Ymestyn ffiniau rhai o'r AGAau presennol ar gyfer adar y môr sy'n magu er mwyn amddiffyn rhannau o'r môr sy'n bwysig o safbwynt ecolegol i adar y môr
 - ii. Adar dŵr o gwmpas y glannau nad ydynt yn magu
 - iii. Adar y môr mawr

¹³ Dan Reoliad 35 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

¹⁴ Dan Reoliad 36 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

- iv. Ardaloedd chwilio am fwyd pwysig i fôr-wenoliaid yn nyfroedd Cymru.

0.6.7 Rydym i gyd yn disgwyl am gasgliadau terfynol ar gyfer gwahanol ganghennau'r gwaith. Mae'r ffrwd waith ehangu nythfaoedd wedi symud ymlaen digon i alluogi'r Cyngor Cefn Gwlad i argymhell tri estyniad tua'r môr i AGAau nythfaoedd presennol i Lywodraeth Cymru (gweler Tabl 1). Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyngor Cefn Gwlad weithredu'r argymhellion hyn yn 2012/13.

Tabl 1: Argymhellion ar gyfer ymestyn ffiniau AGAau

AGA	Estyniad a argymhellir	Rhywogaethau
Sgogwm a Sgomer	4 km	Gwylog, Llurs, Pâl, Aderyn Drycin Manaw
Gwales	2 km	Hugan
Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli	9 km (o ymchwil CCGC a'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur)	Aderyn Drycin Manaw

Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

- 0.6.8 Mae'r gwaith o weithredu Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn dal yn ei ddyddiau cynnar. Mae'n cael ei gydlynu gan Defra drwy Grŵp Llywio Polisi Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn aelod o'r grŵp hwn. Mae cefnogaeth dechnegol yn cael ei chydlynu drwy Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y Deyrnas Unedig; mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cael ei gynrychioli yn y strwythur hwn hefyd.
- 0.6.9 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cyfrannu tuag at gamau ymgynghori allweddol wrth ddatblygu a gweithredu'r Gyfarwydddeb, gan gynnwys ymgynghoriad gweinyddiaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Ngwanwyn 2012 ar gynigion ar gyfer Statws Amgylcheddol Da ac Asesiad Cychwynnol y Deyrnas Unedig. (Dyma ddau ofyniad allweddol cyntaf y Gyfarwydddeb.) Fe ddywedodd y Cyngor Cefn Gwlad, a nifer o sefydliadau eraill, nad yw cynigion y Deyrnas Unedig ar gyfer disgrifiad a thargedau Statws Amgylcheddol Da yn ddigon uchelgeisiol, ac mae hynny'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd rownd gyntaf gweithredu'r Gyfarwydddeb yn arwain at lawer o welliannau yn statws moroedd Cymru a'r Deyrnas Unedig.
- 0.7.0 Dan y rheoliadau trosi, sef Rheoliadau Strategaeth Forol 2010, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am sefydlu rhaglen fonitro a rhaglen o fesurau ar gyfer moroedd Cymru. Un mater sy'n achosi cryn bryder ar hyn o bryd yw'r ffaith nad oes gennym ddigon o adnoddau yng Nghymru i gyflawni camau nesaf y Gyfarwydddeb yn ddigonol.

- 0.7.1 Bydd swyddogaethau'r Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n cael eu dwyn ynghyd, a gallwn ddisgwyl i'r Corff Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru fod â rôl gynghori hollbwysig yng nghyswllt holl ofynion y Gyfarwydeb a rôl gyflawni yng nghyswllt gwaith monitro a rheoli.
- 0.7.2 Mae Cyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn faes gwaith pwysig iawn sydd angen digon o adnoddau er mwyn iddo allu sicrhau'r fframwaith troswaol y disgwylir iddo ei ddarparu, a'r manteision arfaethedig i'r amgylcheddol morol sy'n mynd â ni tuag at ddefnydd gwirioneddol gynaliadwy o'n moroedd.

Y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr

- 0.7.3 Mae cysylltiadau cryf rhwng Gyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr sy'n goryffwrdd mewn dyfroedd arfordirol allan i 1 milltir fôr (ac ar gyfer statws cemegol allan i 12 milltir fôr). Mae Cyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn canolbwyntio ar sicrhau Statws Amgylcheddol Da yn y môr, ac mae'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr yn ceisio sicrhau Statws Ecolegol Da a Statws Cemegol Da mewn afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac aberoedd ac yn nyfroedd y glannau. Er mwyn cael mwy o gysondeb rhwng dulliau gweithredu'r ddwy Gyfarwydeb, mae cynigion y Deyrnas Unedig ar gyfer targedau Statws Amgylcheddol Da a dangosyddion ar gyfer Gyfarwydeb Fframwaith y Strategaeth Forol wedi cael eu cysoni i'r graddau y mae hynny'n bosibl â thargedau a dulliau asesu tebyg dan y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.
- 0.7.4 Rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar lefelau (cenedlaethol?) rhanbarthol a lleol er mwyn sicrhau bod y camau blaenoriaeth ar gyfer safleoedd gwarchoddedig (ACA, AGA, Ramsar ac ati), a nodwyd yn Atodiad D o'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon, wedi'u cysylltu â'r camau priodol. Er mai ychydig o gynnydd a welwyd yn amgylchedd yr aberoedd a'r arfordir, o'i gymharu â'r camau ar gyfer afonydd, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn dal i weithio mewn cysylltiad agos â'r Asiantaeth er mwyn sicrhau bod camau ychwanegol yn cael eu nodi lle bo angen. Mae'r broses yn cael ei chadw'n gyfredol gyda'n Cronfa Ddata o Gamau Gweithredu ar gyfer Safleoedd Arbennig (gweler paragraff 0.2.9). Pan fydd camau'n cael eu rhoi ar waith byddant yn cael eu monitro a bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno amdanynt.
- 0.7.5 Rydym hefyd yn cysylltu gyda'r Asiantaeth er mwyn sicrhau bod yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer safleoedd gwarchoddedig yn dal i gael eu hystyried fel y safon er mwyn mesur Statws Ecolegol Da lle bo'n briodol, a bod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn sicrhau bod camau gweithredu Atodiad D yn cael eu hystyried fel gwaith prif ffrwd wrth weithredu'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.
- 0.7.6 Yn olaf, rydym yn gweithio gyda phob un o'n partneriaid, yn enwedig y cwmnïau dŵr, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod yr adolygiad o Gynlluniau Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Gweithredu'n rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig, yn fwyaf

arbennig wrth ddod â meysydd gwaith tebyg at ei gilydd, er enghraifft gwaith datblygu PR14, Glastir a mentrau dalgylch fel Prosiect Mynyddoedd Cambria, i adeiladu ar y dull gwasanaethau ecosystem a'i ddatblygu i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

- 0.7.7 Mae diddordeb y Pwyllgor mewn diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cael ei groesawu. Cyflwynodd y Cyngor Cefn Gwlad dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad y Pwyllgor i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac rydym yn cyfeirio'r Pwyllgor at yr ymateb blaenorol hwn.

Polisi Morol Integredig yr Undeb Ewropeaidd

- 0.7.8 Rhoddodd y Cyngor Cefn Gwlad gyngor ynglŷn â datblygu Polisi Morol Integredig y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddwyd yn 2007.¹⁵ Mae'r Polisi Morol Integredig yn darparu fframwaith llywodraethu lefel uchel ar gyfer cynllunio a rheolaeth forol yn Ewrop gyda'r bwriad o ddarparu agwedd fwy cydlynol tuag at faterion morol, a mwy o gydlynw rhwng gwahanol feysydd polisi. Cynigiwyd nifer o brosiectau (camau gweithredu) yn y Polisi, gan gynnwys datblygu map ffyrdd ar gyfer cynllunio gofodol morol, sydd wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn.¹⁶ Mae'r Undeb Ewropeaidd yn dal i hybu ac ariannu blaenoriaethau ar gyfer y Polisi gan ddangos y pwysigrwydd parhaus a roddir i gynllunio a rheolaeth integredig yn yr amgylchedd morol.

Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol

- 0.7.9 Cyhoeddodd Senedd Ewrop a'r Cyngor Argymhellion ar gyfer Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol ym Mai 2002.¹⁷ Gwnaethpwyd argymhellion mewn nifer o feysydd gan gynnwys y canlynol: dull strategol o reoli ardaloedd arfordirol; cyfres o egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol; cynhyrchu strategaethau cenedlaethol. Er bod adolygiad o'r Argymhellion wedi'i lansio yn 2001, ymddengys bod yr Argymhellion ar gyfer Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol fel cynllun polisi wedi cael ei oddiweddyd i ryw raddau gan ddatblygiadau polisi integredig eraill ar lefel Ewropeaidd, gan gynnwys y Datganiad Polisi Morol, a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a diddordeb mewn cynllunio gofodol morol.

- 0.8.0 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth er mwyn sicrhau Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol yng Nghymru yn 2007.¹⁸ Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ceisio rhoi ei gamau gweithredu ei hun ar waith yn y strategaeth. Nid ydym yn ymwybodol o gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwaith penodol sy'n gysylltiedig â Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol. Mae'n bosibl bod hynny oherwydd yr holl ymrwymadau polisi a deddfwriaeth forol eraill sydd ar yr agenda yng Nghymru ar hyn o bryd.

¹⁵ Cyfathrebiad gan y Comisiwn, *An Integrated Maritime Policy for the European Union*, COM(2007)575, 10/10/2007.

¹⁶ Cyfathrebiad gan y Comisiwn, *Roadmap for Maritime Spatial Planning: Achieving Common Principles in the EU*, COM/2008/0791 terfynol

¹⁷ Argymhelliad Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 30 Mai 2002 ynglŷn â gweithredu Rheolaeth Integredig ar Barthau Morol yn Ewrop, 2002/413/EC

¹⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru: Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru*

0.8.2 Mae Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn dal yn broses bwysig er mwyn dod â'r gweithgareddau a'r blaenoriaethau niferus ac amrywiol ar gyfer yr arfordir at ei gilydd, a gallai proses cynllunio morol, gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ac agweddau eraill ar weithredu polisi morol arwain at ragor o gyfleoedd yn y dyfodol i weithredu egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

2.5 A oes digon o gydgysylltiad a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau cyfagos iddi, mewn cysylltiad â rheoli'r moroedd?

0.8.3 Mae llawer o swyddogaethau rheolaeth forol yn feysydd lle mae'r cyfrifoldeb wedi ei ddatganoli, e.e. cynllunio morol, trwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd a gwarchod natur. Mae'r Deyrnas Unedig yn dal yn gyfrifol am rai meysydd allweddol, er enghraifft trwyddedu prosiectau seilwaith mawr, a gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r gwahanol gyfrifoldebau, a'r ffaith nad oes llawer o adnoddau wedi cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer cyflawni'n fewnol yng Nghymru, yn golygu bod cydgysylltu a chydweithredu'n dipyn o her. Ond er yr her hon, gwelwyd cydweithredu da mewn nifer o feysydd.

0.8.4 Cyhoeddwyd Datganiad Polisi Morol ar y cyd gan weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig yn 2011 yn dilyn proses gynhwysol o ymgynghori â rhanddeiliaid. Gwelwyd cydweithredu da hyd yn hyn hefyd wrth weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, gyda Defra'n dangos arweiniad cryf a Llywodraeth Cymru'n cyfrannu tuag at y broses lywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae Defra'n bwriadu dal i chwarae rôl gydgysylltu yn ystod y camau cyflawni nesaf (rhaglen fonitro a rhaglen o fesurau) er mai Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb uniongyrchol am y camau hyn. Gan fod pryder ynglŷn â phrinder adnoddau i gyflawni camau nesaf Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yng Nghymru, mae'n anodd dweud i ba raddau y bydd y cydweithredu da hwn yn parhau.

0.8.5 Mae angen cydgysylltu a chydweithredu wrth ddatblygu a gweithredu meysydd polisi a deddfwriaeth forol tebyg gyda gweinyddiaethau cyfagos er mwyn osgoi gwrthdaro sy'n achosi anawsterau i randdeiliaid, a hefyd er mwyn sicrhau bod y manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol posibl yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae'r ffaith fod gwahanol weinyddiaethau'n dilyn amserlenni gwahanol, fodd bynnag, yn gwneud cydweithredu ystyrion yn anos; er enghraifft roedd y ffaith fod Prosiectau Parthau Cadwraeth Morol Cymru'n datblygu ar gyflymder gwahanol i brosiectau eraill cyfagos yn golygu bod rhyngweithio ystyrion yn anodd. Mae'r anghysonder mewn cynnydd â chynllunio morol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr hefyd yn golygu ein bod yn debygol o fethu'r cyfle i sicrhau cydweithredu ystyrion ym maes cynllunio morol yn ardaloedd y gororau.

0.8.6 Ar ôl ffurfio Asiantaethau Cadwraeth a Physgodfeydd y Glannau a'r Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr, ac ar ôl i Lywodraeth Cymru amsugno swyddogaethau pwyllgorau pysgodfeydd môr Cymru, mae cyfleoedd i ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd a chytundebau ar draws ffiniau Cymru.

0.8.7 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gweithio gyda chyrrff gwarchod natur statudol eraill ledled y Deyrnas Unedig er mwyn rhoi sylw i faterion gwarchod natur morol gyda'i gilydd a, lle bo'n briodol, i ddarparu cyngor ar y cyd i'r Llywodraeth. Mae gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur swyddogaeth bwysig gan ei fod yn cydlynu cyngor ar faterion cadwraeth ledled y Deyrnas Unedig. Rydym yn disgwyl gweld rôl gydweithredol Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn y Deyrnas Unedig yn parhau yn y Corff Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn gwaith morol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghyd â phwysau ar adnoddau wedi golygu ei bod yn anos sicrhau cymaint o gydweithredu drwy'r Deyrnas Unedig ag a welwyd yn y gorffennol.

2.6 A oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau ariannol a staff i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran polisi a deddfwriaeth forol?

0.8.8 Fel sy'n amlwg o rychwant ymchwiliad y Pwyllgor mae'r rhaglen bresennol ar gyfer cyflawni polisi a deddfwriaeth forol yn eang iawn. Mae cael digon o adnoddau, o ran arian a phobl, yn her i Lywodraeth Cymru, ac i Gymru'n gyffredinol. Mae llawer o feysydd gwaith morol hefyd yn newydd, o'u cymharu â systemau cadwraeth, cynllunio a rheoli daearol (fel Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, a phwerau newydd yn Neddf y Môr) ac mae hyn yn golygu mwy o her o ran y capasiti i gyflawni.

0.8.9 Mae'n amlwg nad yw'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn galluogi Cymru i ddal i fyny â gwaith polisi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd Cymru'n cael anhawster hefyd i ddal i fyny â chamau nesaf gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, yn sicr ar y raddfa a nodwyd yng nghynigion gweinyddiaethau llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddar ar gyfer sicrhau Statws Amgylcheddol Da ym moroedd y Deyrnas Unedig (gweler adran 2.4, paragraffau 0.6.8 – 0.7.2).

0.9.0 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Asesiadau Effaith manwl o gost a manteision gweithredu darnau sylweddol o ddeddfwriaeth newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Deddf y Môr a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.¹⁹ Mae'r asesiadau hyn yn dangos bod costau sylweddol ynghlwm wrth weithredu deddfwriaeth, ond nid ydym hyd yma wedi gweld cyllid ychwanegol cyfatebol gan y Llywodraeth sy'n cyfateb i'r buddsoddiad y rhagwelir y bydd ei angen. Fodd bynnag, mae'r asesiadau hefyd yn dangos y dylai'r buddsoddiad hwn, os yw'n cael ei wneud, arwain at fudd economaidd sy'n llawer mwy na'r costau. Er enghraifft, daeth yr Asesiad Effaith ar gyfer Deddf y Môr i'r casgliad bod cyfanswm cost gweithredu'r

¹⁹ Enghreifftiau o'r Asesiadau Effaith yw:

Defra (2009) *Marine and Coastal Access Act Impact Assessment: Final - Royal Assent*, Defra, Mawrth 2010

Defra (2010) *Transposition of the Marine Strategy Framework Directive: Final Impact Assessment*, Defra, Mehefin 2010

Defra (2012) *Marine Strategy Framework Directive Consultation: UK Initial Assessment and Proposals for Good Environmental Status*, Defra, Mawrth 2012

deddfwriaeth yn £736m – £1.54bn, tra bod cyfanswm y budd yn £8.6bn – £19.6bn.

- 0.9.1 Os gellir sicrhau mwy o adnoddau, mae maint Cymru a chysylltiad da rhwng sefydliadau'n cynnig cyfle gwych i wella cyflwr a rheolaeth ein hamgylchedd a'n treftadaeth forol bwysig. Mae hefyd yn gyfle i arwain y ffordd mewn cynllunio a rheolaeth forol integredig, sy'n seiliedig ar ecosystemau.
- 0.9.2 Er bod adnoddau'n brin, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu agweddau allweddol ar bolisi morol, e.e. yr Uned Caniatadau Morol, a chyflawni swyddogaethau rheoli pysgodfeydd newydd.
- 0.9.3 Er ein bod yn dweud bod angen rhagor o adnoddau, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cydnabod y realiti bod pen draw ar adnoddau, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. O ganlyniad, mae'n bwysicach fyth bod gennym weledigaeth glir a strwythur llywodraethu integredig er mwyn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar ei strwythurau llywodraethu morol; rydym felly'n edrych ymlaen at yr arbedion a'r cydlyniant a allai ddod yn sgil hyn wrth weithredu polisi morol.
- 0.9.4 Bydd gan y Corff Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru rôl hollbwysig i'w chwarae wrth gynghori a chefnogi gweithredu polisi a deddfwriaeth forol yng Nghymru. Mae'r sefydliad newydd hwn yn gyfle da i sicrhau dulliau gweithredu mwy integredig, ond bydd angen iddo gael ei arwain gan weledigaeth gydlynol glir a blaenoriaethau gan y Llywodraeth, ynghyd â'r adnoddau i weithredu'r blaenoriaethau hyn.

2.7 A yw rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys yn ddigonol yn y gwaith o lunio polisiau newydd a datblygu deddfwriaeth?

- 0.9.5 Mae cynnwys rhanddeiliaid mewn mentrau sy'n effeithio ar eu buddiannau a'u pryderon yn elfen hollbwysig o'r ffordd y mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gweithio. Rydym yn cydnabod perthnasedd a phwysigrwydd Agenda Creu'r Cysylltiadau a'r angen i ganolbwyntio ar ddinasyddion wrth gyflawni ein swyddogaethau.

Blwch 3: FishMap Môn

Mae FishMap Môn yn ceisio gweithio gyda physgotwyr er mwyn helpu i wella cynaliadwyedd pysgodfeydd o amgylch Ynys Môn ac Afon Menai a thrwy wneud hynny, helpu i wireddu gweledigaeth Strategaeth Pysgodfeydd Cymru, sef helpu i ddatblygu pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru fel rhan annatod o bolisiau cydlynol ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Fel prosiect peilot, bydd FishMap Môn yn cysylltu â'r diwydiant pysgota lleol er mwyn treialu dulliau o gasglu a mapio gwybodaeth am weithgaredd pysgota a chyfuno hynny â data sydd ar gael yn barod am fathau o gynefinoedd a'u sensitifrwydd.

- 0.9.6 Mae gweithio mewn partneriaeth yn elfen ganolog o ddull gweithredu'r Cyngor Cefn Gwlad ac rydym yn gweithio bob diwrnod gyda rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a lleol. Mae prosiect FishMap Môn yn enghraifft dda o ddulliau gweithio cydweithredol y Cyngor Cefn Gwlad; ceir gwybodaeth am y prosiect ym Mluch 3. Mae'n braf gweld bod yr ethos hwn o weithio mewn partneriaeth yn cael ei gefnogi yn y llyfryn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru, 'Striking the Balance'.²⁰
- 0.9.7 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn deall gwerth ymgysylltu anffurfiol rheolaidd a datblygu perthynas a dealltwriaeth o'n gwaith. Mae hefyd yn deall bod ymgysylltu parhaus effeithiol â rhanddeiliaid yn cymryd tipyn o amser a bod angen digon o adnoddau. Rydym hefyd yn cydnabod bod meysydd polisi y bydd angen ar adegau i'r Llywodraeth a sefydliadau eraill eu datblygu i ryw bwynt cyn ymgysylltu'n ehangach a bod hwn yn benderfyniad anodd i'w gael yn iawn.
- 0.9.8 Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n ceisio cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth forol, ac mae rhai enghreifftiau da o hyn. Un enghraifft o hyn yw'r system grwpiau ymgysylltu â rhanddeiliaid a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn edrych ar gynigion polisi pysgodfeydd. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid hefyd wrth ddatblygu syniadau mewn meysydd eraill megis cynllunio morol drwy gyngor gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru yn 2007 ac ymgynghoriad cychwynnol y Llywodraeth ar y broses cynllunio morol ar gyfer Cymru ym Mai 2011.
- 0.9.9 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarferiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ddiweddar hefyd drwy'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol gwarchoddedig iawn. Arweiniodd yr ymgynghoriad hwn at gryn dipyn o drafod, ynglŷn â'r cynigion eu hunain a hefyd ynglŷn â'r broses ymgysylltu. O ganlyniad, mae gwersi i'w dysgu o'r broses hon, o ran amseriad, dyfnder a natur yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ogystal â rhagweld a lliniaru problemau posibl.
- 1.0.0 Un o egwyddorion dulliau effeithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid yw nodi'r sefydliad priodol i fod yn gyfrifol am yr ymgysylltiad hwnnw. Gyda materion polisi cenedlaethol a datblygu deddfwriaeth mae'n amlwg mai rôl y Llywodraeth yw arwain y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, gyda chynigion gweithredu manwl sy'n amlwg yn cael effaith leol uniongyrchol, efallai y byddai'n fwy priodol i sefydliad gweithredu sydd â phresenoldeb lleol ymgymryd â'r gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu angenrheidiol.

²⁰ Wooler, A (2012) *Striking the Balance: An Ecosystem-based Approach for MPA Management in Wales* Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Cyf, Gorffennaf 2012

- 1.0.1 Mae nifer o wahanol strwythurau yng Nghymru ar hyn o bryd, fel Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru a phartneriaethau arfordirol lleol a all gynnig cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth. Gellid gwneud defnydd mwy gweithredol a chyson o randdeiliaid i gyfrannu tuag at waith y Llywodraeth, gan gynnwys gwell defnydd o'r strwythurau presennol.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales
Medi 2012

ATODIAD 1: Tystiolaeth o newid yn yr amgylchedd morol

Dyma rai enghreifftiau o gyhoeddiadau sy'n adolygu newidiadau yn ein moroedd:

- Defra (2010) *Charting Progress II: The State of the UK's Seas*.
<http://chartingprogress.defra.gov.uk>
- Gubbay, S. (2009) *A Selective review of historical information about the marine environment around Wales*. Adroddiad i WWF Cymru

Daw'r pytau isod o Erthygl i rifyn Gaeaf 2010 cylchlythyr y Cyngor Cefn Gwlad, H₂O, sy'n crynhoi canfyddiadau Charting Progress II.

Mae'r prif **negeseuon amgylcheddol ar gyfer y Deyrnas Unedig** sy'n deillio o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Mae lefel y môr wedi codi tua 14cm yn ystod y ganrif ddiwethaf ac mae tymheredd yr arwyneb wedi codi 1°C ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg;
- Mae poblogaethau adar y môr a morloi cyffredin yn dirywio mewn rhai ardaloedd;
- Mae'r stoc bysgod wedi gwella ond mae llawer yn dal i gael eu pysgota mewn modd anghynaliadwy;
- Mae llawer o aberoedd yn lanach ac mae hyn wedi cynyddu amrywiaeth a nifer y rhywogaethau o bysgod;
- Mae halogiad gan sylweddau peryglus (fel metelau trwm) wedi lleihau yn y rhan fwyaf o'r rhanbarthau, ac ychydig o broblemau yn ymwneud ag ymbelydredd, ewtroffigedd neu docsinau algaidd mewn bwyd môr sydd i'w gweld, os o gwbl;
- Canfuwyd sbwriel, yn enwedig plastig, ar bob traeth a arolygwyd, a hefyd yn y môr ac ar wely'r môr;
- Cyfrannodd diwydiannau morol £47 biliwn i'r economi yn 2008;
- Y prif bwysau ar yr amgylchedd morol yw difrod i gynefinoedd a cholli cynefinoedd ar wely'r môr o ganlyniad i bysgota a phresenoldeb strwythurau ffisegol.

Arsylwadau Cymreig yn seiliedig ar *Charting Progress II* a phrofiad y Cyngor Cefn Gwlad:

Ers canol y 1980au Môr Iwerddon sydd ag un o'r proffiliau cynhesu rhanbarthol cliraf, ac mae cynnydd yn lefel y môr a pherygl o lifogydd wedi cael eu nodi fel materion pwysig i ogledd Cymru a'r ardal o amgylch Môr Hafren. Mae cyflwr cynefinoedd creigiau a gwaddodion rhynglanwol yn dirywio wrth i lefel y môr a thymheredd y dŵr godi, ac mae cynaeafu pysgod cregyn mewn rhai ardaloedd, sbwriel, strwythurau arfordirol a rhywogaethau estron yn cael effaith gronnol.

Yn gyffredinol, clywir yn aml am rywogaethau morol estron newydd yn cael eu cofnodi, a gall rhai gael effaith ymwithiol andwyol.

Mae cynefinoedd gwaddod islanwol yn cael eu heffeithio i raddau amrywiol gan garthu a threillio am bysgod. Mae'r pwysau lleol ar gynefinoedd islanwol yn cynnwys cloddio am gerrig mân, a gosod seilwaith ynni adnewyddadwy.

Y pwysau mwyaf ar boblogaethau pysgod yw colli pysgod o ganlyniad i weithgareddau pysgota masnachol. Mae rhywfaint o ffermio rhywogaethau masnachol, fel cregyn gleision yn Afon Menai.


Nid yw nythfaoedd adar y môr yng Nghymru wedi gweld yr un dirywiad mewn poblogaeth ag a gofnodwyd mewn rhanbarthau eraill. Sylwyd ar newidiadau yn nosbarthiad adar yr aberoedd dros y gaeaf yng Nghymru yn ddiweddar a gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Tybir bod poblogaethau o forloi llwyd yn gymharol sefydlog ond mae'n anodd eu harolygu yng Nghymru gan eu bod yn defnyddio ogofau a lleoliadau anghysbell i fagu. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod poblogaethau morfilaidd yn sefydlog ond nid oes llawer o ffydd yn yr asesiad yn *Charting Progress II*.

Gwyddys bod rhai aberoedd (a systemau afonydd) yng Nghymru wedi etifeddu gwaddodion halogedig o weithgaredd diwydiannol yn y gorffennol. Yn gyffredinol, mae sbwriel traeth yn cael ei ystyried yn broblem esthetig ac economaidd ond mae angen gwneud rhagor o ymchwil er mwyn deall yn iawn beth yw'r goblygiadau ecolegol.

(Pytiau o erthygl gan Catherine Duigan.)

ATODIAD 2: Map o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru



ATODIAD 3: Cylchoedd adrodd a gofynion Ardaloedd Morol dan Warchodaeth

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig: Mae'r broses adrodd am ACAau yn cael ei rheoli gan Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae Erthygl 17 yn nodi y dylai aelod-wladwriaethau adrodd ar gamau a gymerwyd a'u canlyniad yn nhermau statws cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd a restrwyd yn Atodiadau'r Gyfarwyddeb. Mae'r adroddiadau'n ymwneud â nodweddion ble bynnag y maent yn cael eu darganfod (h.y. nid mewn ACA yn unig). Cafwyd dwy rownd adrodd flaenorol, gyda'r un ddiweddaraf yn 2007. Y dyddiad adrodd nesaf yw 2013, gydag adroddiadau ar lefel y Deyrnas Unedig yn cael eu cydgysylltu gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur.

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad hefyd wrthi'n paratoi data ar hyn o bryd i'w cyflwyno i drydedd rownd adroddiadau chwe blynedd Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a gynhelir yn 2013. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn coladu data am ddisbarthiad a maint (ystod) nodweddion a sut y mae hyn wedi newid, yn ogystal â gwybodaeth am strwythur a swyddogaeth. Bydd y Cyngor Cefn Gwlad hefyd yn dadansoddi data fesul safle er mwyn gwella ein dealltwriaeth o gyflwr Ardaloedd Morol dan Warchodaeth a dilyn adroddiadau seiliedig ar safleoedd a gwblhawyd hefyd yn 2007.

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig: Mae Erthygl 12 o'r Gyfarwyddeb Adar yn nodi y dylai aelod-wladwriaethau adrodd am weithredu'r Gyfarwyddeb bob 3 blynedd, ond nid yw'r Deyrnas Unedig wedi glynu'n gaeth at yr amserlen hon. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu newid y gofynion adrodd i fod yn fwy cyson â gofynion adrodd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Roedd adolygiad y Cydbwyllgor Gwarchod Natur yn 2001 o weithredu'r Gyfarwyddeb Adar yn canolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd daearol ond mae'n cydnabod bod angen adolygiad o weithredu yn yr Amgylchedd Morol. Cynhelir yr adolygiad mawr nesaf o weithredu'r Gyfarwyddeb Adar yn Rhagfyr 2013 (dechrau'r broses o gysoni trefniadau adrodd gyda'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd).

SoDdGA: Lle mae SoDdGA yn gorgyffwrdd â Safle Morol Ewropeaidd, a'r un cynefinoedd a/neu rywogaethau morol yn cael eu cynnwys gan y ddau ddynodiad, cesglir gwybodaeth am y nodweddion morol drwy un raglen fonitro. Fodd bynnag, mae llawer o SoDdGAau â nodweddion morol sydd y tu allan i Safle Morol Ewropeaidd, ac mae monitro cyflwr a statws cadwraeth pob un o'r rhain yng Nghymru yn her. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn monitro nodweddion SoDdGA morol os yw'r adnoddau'n caniatáu, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risgiau wrth flaenoriaethu gweithgareddau monitro a gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n gwneud gwaith monitro morol (fel Asiantaeth yr Amgylchedd) er mwyn cynyddu'r capasiti monitro.

Yn 2006 cynhaliwyd 'Adolygiad Cyflym' i asesu cyflwr SoDdGAau Cymru. Roedd y broses hon yn defnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar gyfer nodweddion, ynghyd â barn broffesiynol swyddogion y Cyngor Cefn Gwlad. Nid yw data'r adolygiad wedi cael eu dadansoddi ar gyfer holl nodweddion SoDdGAau morol, ond cyflwynwyd adroddiad ar gynefinoedd rhynglanwol.

Safleoedd Ramsar: Cyflwynir adroddiadau Ramsar i Ysgrifenyddiaeth Ramsar bob 6 blynedd. Mae'r adroddiadau ar lefel gymharol uchel ac wedi eu hintegreiddio ar draws y Deyrnas Unedig.²¹ O ganlyniad, mae'n anodd tynnu gwybodaeth benodol er mwyn gwneud penderfyniad clir ynglŷn â statws safleoedd Ramsar sy'n ffurfio rhan o'r casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru.

Parthau Cadwraeth Morol: Mae Adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru roi adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2012, a bob chwe blynedd ar ôl hynny, yn nodi i ba raddau y mae wedi cyflawni amcanion y Ddeddf, a defnyddio Parthau Cadwraeth Morol i gyfrannu tuag at rwydwaith o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i'r adroddiad hefyd ymdrin â chamau pellach sydd eu hangen, yn ogystal â manylion amrywiol am unrhyw Parthau Cadwraeth Morol sydd wedi cael eu dynodi. Yr amcanion ar gyfer y rhwydwaith y mae'n ofynnol iddynt gael eu cyflawni gan gyfuniad o Safleoedd Morol Ewropeaidd, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, safleoedd Ramsar a Parthau Cadwraeth Morol yw:

- (a) rhaid i'r rhwydwaith helpu i warchod neu wella'r amgylchedd morol yn ardal forol y Deyrnas Unedig;
- (b) rhaid i'r nodweddion sy'n cael eu diogelu gan y safleoedd sy'n rhan o'r rhwydwaith gynrychioli'r ystod o nodweddion sy'n bresennol yn ardal forol y Deyrnas Unedig;
- (c) rhaid i ddynodiad y safleoedd sy'n rhan o'r rhwydwaith adlewyrchu'r ffaith ei bod yn bosibl y bydd angen dynodi mwy nag un safle er mwyn gwarchod nodwedd.

Gellir dehongli amcanion a, b ac c uchod fel a ganlyn:

- (a) Rheolaeth effeithiol/ffafriol yn arwain at gyflwr ffafriol safleoedd
- (b) Cynrychiolaeth
- (c) Dyblygu

Adroddiadau Gwarchodfa Natur Forol Sgomer: Asesir statws cadwraeth nodweddion gwarchodfeydd natur morol yn ôl dangosyddion perfformiad sy'n cael eu nodi yng nghynllun rheoli'r safle. Mae nodweddion gwarchodfa natur forol yn wahanol i'r rhai sydd yn y safle morol Ewropeaidd sydd o'i chwmpas gan eu bod yn cael eu dewis a'u hasesu mewn modd tebyg i'r rhai hynny ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol ac maent ar raddfa wahanol (ac eithrio rhywogaethau fel morloi llwyd yr Iwerydd).

Defnyddir data monitro gwarchodfeydd natur morol ac asesiadau statws cadwraeth hefyd i helpu i ganfod cyflwr a statws cadwraeth nodweddion safleoedd morol Ewropeaidd ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro, y mae Gwarchodfa Natur Forol Sgomer yn rhan ohoni.

²¹ Mae adroddiad diweddaraf y Deyrnas Unedig (Mehfin 2012) ar weithredu Confensiwn Ramsar ar wlyptiroedd i'w weld yn <http://www.ramsar.org/pdf/cop11/nr/cop11-nr-uk.pdf>

ATODIAD 4: Casgliadau ac argymhellion y Cyngor Cefn Gwlad i Lywodraeth Cymru yn dilyn adolygiad rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth y Cyngor Cefn Gwlad

Gwnaethpwyd yr argymhellion a ganlyn i Lywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2012:

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi dod i'r casgliad bod angen mwy o arweiniad er mwyn sicrhau Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sy'n cael eu rheoli'n dda. Dylai Llywodraeth Cymru, â chefnogaeth y Cyngor Cefn Gwlad, yr Un Corff Amgylcheddol, ac eraill ymgymryd â'r rôl hon, gan weithio er mwyn darparu dull effeithiol o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sydd wedi'i integreiddio ar draws y Llywodraeth ag elfen gref o gynnwys rhanddeiliaid yn unol ag ymagwedd Cynnal Cymru Fyw, ac sydd drwy hynny'n gwneud cyfraniad pendant tuag at yr agenda datblygu cynaliadwy ehangach ar gyfer Cymru. Mae angen cydnabyddiaeth glir bod dulliau effeithiol o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn rhan annatod o'r broses o wireddu gweledigaeth gyffredin y Llywodraeth ar gyfer amgylchedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol, llawn amrywiaethau biolegol yn y môr ac o gwmpas yr arfordir, yn ogystal â chyflawni Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Rydym yn cynghori Llywodraeth Cymru y gellir gwneud hyn drwy:

- Adeiladu ar ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth sy'n cael ei reoli'n dda. Gellir gwneud hyn drwy fabwysiadu gweledigaeth strategol ar gyfer y casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru a fydd yn llywio'r ffordd y mae Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn cael eu rheoli ledled Cymru. Er enghraifft, mae Ardaloedd Morol dan Warchodaeth Cymru yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn gyson. Mae hyn yn diogelu bywyd gwylt a chynefinoedd morol y safleoedd hynny ac yn sicrhau budd ehangach i'r ecosystem, drwy ddarparu moroedd glân, diogel, iach, cynhyrchiol a llawn amrywiaethau biolegol yng Nghymru. Mae Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd y budd y maent yn ei ddarparu i bobl Cymru, drwy ddiogelu eu treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog, a'u rôl yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd morol yn dal i ddarparu ystod lawn o fuddion i gymdeithas yn yr hirdymor.
- Sicrhau bod Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru, a dulliau effeithiol o'u rheoli, yn rhan annatod o'r broses o gyflawni Rhaglen Cynnal Cymru Fyw a datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
- Sefydlu Grŵp Llywio Rheolaeth Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi arweiniad clir a darparu dull cydlynol o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru. Dylai'r grŵp ddatblygu Cylch Gorchwyl sy'n helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r strategaeth ar gyfer Ardaloedd Morol dan Warchodaeth. Byddem yn awgrymu y dylai'r grŵp ganolbwyntio ar y canlynol:
 - Sefydlu ffyrdd gwell o weithio er mwyn gwella rheolaeth ein Hardaloedd Morol dan Warchodaeth a llywio gwaith rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth cenedlaethol a lleol yn unol â hynny.

- Sicrhau bod Awdurdodau Rheoli²² Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru'n chwarae rhan weithredol yn y Grŵp a darparu dull effeithiol o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth.
- Llywio'r broses o ffurfio Grwpiau Rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth lleol i oruchwyllo rheolaeth yr holl Ardaloedd Morol dan Warchodaeth mewn Ardaloedd Rheoli o faint addas.
- Sicrhau bod cynlluniau gweithredu a chyflawni ag amcanion clir, sydd wedi cael eu blaenoriaethu, ac sydd â ffocws lleol, neu gynlluniau cyfatebol, yn cael eu paratoi a'u gweithredu ar gyfer pob Ardal Reoli.
- Gweithio gyda Grwpiau Rheoli newydd yr Ardaloedd Morol dan Warchodaeth er mwyn blaenoriaethu bylchau mewn gwybodaeth a helpu i ledaenu gwybodaeth berthnasol yn well.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith yr holl randdeiliaid o werth y casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru, y budd y maent yn ei ddarparu ac, ar lefel strategol, eu hanghenion rheoli.
- Sicrhau bod cymhellion priodol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu darparu yn yr hirdymor ar gyfer dulliau integredig o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth a strwythurau cefnogi.
- Annog, cefnogi ac ariannu datblygiad parhaus sail dystiolaeth gadarn, hygyrch ac integredig, sydd ar gael yn rhwydd, fel sail i'r gwaith o reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru.
- Sicrhau bod y casgliad o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru a'u hanghenion rheoli'n cael eu hintegreiddio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol sy'n bodoli ar hyn o bryd a pholisïau a deddfwriaethau'r dyfodol.
- Sicrhau bod Cymru'n dal i gyfrannu tuag at rwydweithiau ehangach o Ardaloedd Morol dan Warchodaeth (y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn fyd-eang) gan gynnwys gweithio'n effeithiol gydag awdurdodau rheoli trawsffiniol ar Ardaloedd Morol dan Warchodaeth trawsffiniol yn y Deyrnas Unedig.
- Sicrhau bod Ardaloedd Morol dan Warchodaeth Cymru'n dal i ddarparu ystod eang o fuddion i gymdeithas ac yn cyfrannu tuag at iechyd a swyddogaethau ecosystemau ehangach.

²² Defnyddir y term awdurdodau rheoli i gyfeirio'n gyfunol at yr holl sefydliadau sydd â chyfrifoldeb statudol mewn cysylltiad ag unrhyw fath o Ardal Forol dan Warchodaeth, neu sy'n berchen ar ddarnau helaeth o wely'r môr neu o dir ar yr arfordir. Mae hyn yn cynnwys: awdurdodau perthnasol a chymwys dan Reoliadau Cynefinoedd 2010 ac awdurdodau cyhoeddus dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.



Cyngor Cefn Gwlad Cymru /
Countryside Council for Wales

Prosiect AmdW /
MPA Project

Ardaloedd Morol dan Warchodaeth ym Moroedd Cymru - Ystadegau Cryno

Marine Protected Areas in Welsh Seas - Summary Statistics

Paratowyd gan / Prepared by: Jennie Jones
Ymgynghorydd Rheoli'r Môr / Marine Management Advisor
Cyngor Cefn Gwlad Cymru / Countryside Council for Wales

20/09/2012

Rheoli fersiynau /
Version control

Version	Change	Made by	Date
1.0	Original	J.Jones	22/07/2010
2.0	MPA map included.	J.Jones	17/05/2011
3.0	MPA map updated.	J.Jones	18/08/2011
4.0	Title changed from Welsh Territorial Seas to 'Welsh Seas' acknowledging inclusion of intertidal (MHW to MLW) and MLW to 12 nautical mile boundary.	J.Jones	20/10/2011
6.0	SPA dataset amended for change in definition of 'marine SPAs' ¹ reducing number of SPAs from 10 to 6 sites.	J.Jones	15/12/2011
7.0	Calculations for MHW to 6 nautical mile boundary included and number of SSSI with saltmarsh as the only feature corrected from 9 to 11 sites.	J.Jones	15/05/2012
8.0	Format amendment to document	J. Jones	20/09/2012

¹ Change in criteria for selection of species considered as marine components agreed with JNCC December 2011. Amended to include species that are dependent on the marine environment within the protected area. This change has not yet been reflected in the list of SPAs with marine components available on JNCC website 20/09/2012.

Contents	Page
Summary Statistics	4
Calculations for Marine Protected Areas in Welsh Seas	5
Annex 1: Table of Marine Protected Areas included in the suite of Welsh MPAs	7
Annex 2: Map of Marine Protected Areas in Welsh Seas included in calculations	12
Annex 3: Derivation of summary statistics.	13

Ardaloedd Morol dan Warchodaeth ym Moroedd Cymru /

Marine Protected Areas in Welsh Seas

Ystadegau Cryno / Summary Statistics

	Nifer yr Ardaloedd Morol dan Warchodaeth (AMdW) / Number of Marine Protected Areas (MPAs)	Arwynebedd Moroedd Cymru a orchuddir gan / Area of Welsh Seas covered (km²)	Cyfran o Fforoedd Cymru o fewn / Proportion of Welsh Seas covered (%)	
Moroedd Cymru / Welsh Seas²		15,941.76		
Ardaloedd Morol Dan Warchodaeth / Marine Protected Areas	125		35.08	(see statistic number 18 in list below)
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) / Special Areas of Conservation (SACs)	11	5,007.45	31.41	(see statistic number 3 in list below)
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) / Special Areas of Protection (SPAs)	6	1,287.51	8.08	(see statistic number 5 in list below)
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig / Sites of Special Scientific Interest (SSSIs)	103	421.18	2.64	(see statistic number 9 in list below)
Ramsar	4	240.14	1.21	(see statistic number 13 in list below)

² Welsh seas include the area of intertidal (Mean High Water to Mean Low Water) plus the area of Welsh territorial sea (below MLW to 12 nautical mile limit).

Calculation of Area Totals of Marine Protected Areas in Welsh Seas^{3 4}

NB. To avoid double-counting where designated sites overlap, only those portions of SPAs and SSSIs that lie outside of SAC have been included in the calculations. All measurements use Cartesian area calculated by MapInfo GIS converted using $1 \text{ km}^2 = 100 \text{ Ha}$. The area may differ slightly from the registered area⁵.

1. **Area of Welsh seas** = 15,941.76 km²

(= Intertidal (Mean High Water to Mean Low Water) +
Welsh territorial sea (below MLW to 12 nautical mile limit))

Special Areas of Conservation (SACs)

2. SAC total area within Welsh seas = 5,007.45 km²

3. Percentage of Welsh seas covered by SAC = 31.41%

(= Area of SAC 5007.45 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

Special Protection Areas (SPAs)

4. SPA total area within Welsh seas = 1,287.51 km²

5. Percentage of Welsh seas covered by SPA = 8.08%

(= Area of SPA 1287.58 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

6. Area of SPA outside of SACs within Welsh seas = 542.02 km²

(= Area of SPA outside SACs 542.02 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

7. Percentage of Welsh seas covered by SPA that are not within SAC = 3.4%

Sites of Special Scientific Interest (SSSIs)⁶

8. SSSI total area within Welsh seas = 421.18 km²

9. Percentage of Welsh seas covered by SSSI= 2.64%

(= Area of SSSI 421.18 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

10. Area of SSSI that is outside SAC or SPA or Ramsar within Welsh seas = 42.36 km²

11. Percentage of Welsh seas covered by SSSI that are not within SAC or SPA = 0.34%

(= Area of SSSI not in SAC or SPA 42.36 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

³ See Annex 1 for list of sites, amounts and areas included in calculations

⁴ See Annex 2 for map of Marine Protected Areas listed included in calculations

⁵ [Weblink to CCW Designated Site Search](#) for site information including registered areas.

⁶ SSSI that have notified or qualifying intertidal or marine features see Appendix 1 list 6

Ramsar

12. Ramsar total area within Welsh seas = 193.46 km²

13. Percentage of Welsh seas covered by Ramsar = 1.21%

(= Area of Ramsar 193.46 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

14. Area of Ramsar that is outside SAC or SPA within Welsh seas = 0 km²

Marine Nature Reserve (MNR)

15. MNR total area within Welsh seas = 13.24 km²

16. Percentage of Welsh seas covered by Marine Nature Reserve = 0.08%

(= Area of MNR 13.24 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

Suite of MPAs

17. Percentage of Welsh seas covered by SAC + SPA outside SAC = 34.81%

(= Area of SAC 5007.45 + Area of SPA outside of SAC 542.08 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

18. Percentage of Welsh seas covered by SAC + SPA outside SAC + SSSI outside SAC or SPA + Ramsar outside of SAC or SPA = 35.08%⁷

(= Area of SAC 5007.45 + Area of SPA outside SAC 542.08 + Area of SSSI outside SAC or SPA or Ramsar 42.36 + Ramsar outside of SPA or SAC 0 / Area of Welsh Seas 15,941.76 *100)

Within Six Nautical Mile Boundary

19. SAC total area within 6nautical mile (nm) to Mean High Water (MHW) = 4,573.09 km²

20. Percentage of 6nm to MHW covered by SACs = 45.72%

(= Area of SAC 4,573.09 / Area of sea within 6nm to MHW 10,001.63 * 100)

21. SPA total area within 6nm to MHW = 1,209.87 km²

22. Percentage of 6nm to MHW covered by SPAs = 12.09%

(= Area of SPA 1,209.87 / Area of sea within 6nm to MHW 10,001.63 * 100)

23. Area of SPAs outside of SACs within 6nm to MHW = 462.60 km²

24. Total area of SACs and SPAs outside of SACs within 6nm to MHW = 5,035.69 km²

(= Area of SACs 4,573.09 + Area of SPAs outside of SACs 462.60)

25. Percentage of 6nm to MHW covered by SACs and SPAs outside of SACs = 50.35%

(= Area of SACs 4,573.09 + Area of SPAs outside of SACs 462.60 / Area of sea within 6nm to MHW 10,001.63 * 100)

⁷ This figure is inclusive of the area of Skomer MNR that lies within the Sir Benfro Forol / Pembrokeshire Marine SAC

Annex 1: Table of Marine Protected Areas (SAC, SPA, RAMSAR, SSSI – intertidal and saltmarsh, MNR) included in the suite of MPAs in Wales.

NB. For consistency, all calculations have been carried out using Cartesian area of sites calculated by MapInfo GIS. The area may differ slightly from the registered area⁸.

Existing Marine Protected Areas (SAC, SPA, RAMSAR, SSSI – intertidal and saltmarsh, MNR) to be Considered as Part of the MPA network	Welsh waters covered (Cartesian Area (km ²)) ⁹	English and Welsh waters covered (Cartesian Area (km ²))
1. SAC		
Bae Cemlyn / Cemlyn Bay	0.44	
Bae Ceredigion / Cardigan Bay	958.65	
Bae Caerfyrddin ac Aberoedd / Carmarthen Bay and Estuaries	661.08	
Aber Dyfrdwy / Dee Estuary (Wales)	74.98	158.06
Glannau Môn: Cors heli / Anglesey Coast: Saltmarsh	10.58	
Cynffig / Kenfig	11.91	
Arfordir Calchfaen de Orllewin Cymru / Limestone Coast of South West Wales	15.95	
Sir Benfro Forol / Pembrokeshire Marine	1380.66	
Pen Llŷn a'r Sarnau / Llyn Peninsula and the Sarnau	1460.35	
Môr Hafren / Severn Estuary (Wales)	267.70	737.15
Y Fenai a Bae Conwy / Menai Strait and Conwy Bay	265.02	
Total Area of 11 SAC (km²) =	5107.57	
3. SPA¹⁰		
Bae Caerfyrddin / Carmarthen Bay	334.10	
Burry Inlet	66.73	
Môr Hafren / Severn Estuary	68.89	244.90
Aber Dyfrdwy / Dee Estuary	68.02	131.61
Traeth Lafan / Lavan Sands, Conway Bay	27.03	
Liverpool Bay SPA (Wales)	753.40	1702.93
Total Area of 6 SPA (km²) =	1318.17	
4. RAMSAR		
Burry Inlet	66.73	
Cors Fochno and Dyfi (33.92% or 844.66 Ha of this site lies outside of Dyfi Estuary/Aber Dyfi SPA)	25.08	
Severn Estuary (Wales)	68.89	244.90
The Dee Estuary (Wales)	79.44	143.03
Total Area of 4 RAMSAR sites (km²) =	240.14	
5. MNR/MCZ		
Skomer	13.24	
Total Area of MNR (km²) =	13.24	

⁸ [Weblink to CCW Designated Site Search](#) for site information including registered areas.

⁹ Areas include total area of SAC, SPA or SSSI in Wales. For consistency, these are Cartesian areas calculated by MapInfo GIS not registered areas of sites.

¹⁰ Number SPAs with marine components reduced from 10 sites to 6 after change in definition for marine species = those dependent on the marine environment within the protected area agreed with JNCC December 2011. This change is not yet reflected in the list of SPAs with marine components available on JNCC website 20/09/2012.


6. SSSI with Notified or Qualifying Intertidal Marine Features (NB Sites may also have Notified or Qualifying Saltmarsh - see number 7 below for separate list of saltmarsh only sites)	Welsh waters covered (Cartesian Area (km²))	English and Welsh waters covered (Cartesian Area (km²))
Aber Afon Conwy	13.01	
Aber Mawddach / Mawddach Estuary (saltmarsh and intertidal features)	13.51	
Aber Taf / Taf Estuary (saltmarsh only – no intertidal features)	15.00	
Aberarth-carreg Wylan	9.97	
Afon Dyfrdwy / River Dee (saltmarsh only – no intertidal features)	14.91	
Afon Teifi (saltmarsh only – no intertidal features)	7.78	
Afon Tywi (saltmarsh only – no intertidal features)	13.14	
Allt Wen a Traeth Tanybwllch	0.36	
Arfordir Abereiddi	0.64	
Arfordir Gogleddol Penmon	1.03	
Arfordir Marros-Pentywyn / Marros-Pendine Coast	2.49	
Arfordir Niwgwyl - Aber bach / Newgale to Little Haven Coast	2.06	
Arfordir Pen-bre / Pembrey Coast (saltmarsh and intertidal features)	41.32	
Arfordir Penrhyn Angle / Angle Peninsula Coast	1.34	
Arfordir Saundersfoot - Telpyn / Saundersfoot - Telpyn Coast	1.52	
Beddmanarch - Cymyran (saltmarsh and intertidal features)	8.91	
Blackpill, Swansea	4.54	
Borth - Clarach	0.86	
Bracelet Bay	0.06	
Broadwater (saltmarsh and intertidal features)	2.62	
Burry Inlet and Loughor Estuary (saltmarsh and intertidal features)	58.51	
Castlemartin Cliffs and Dunes	7.58	
Caswell Bay	0.63	
Cemlyn Bay	0.44	
Coedydd Afon Menai	0.23	
Craigyfulfran & Clarach	0.25	
Creigiau Aberarth-Morfa	0.20	
Creigiau Cwm-Ceriw a Ffos-Las (Morfa Bychan)	0.32	
Creigiau Pen y graig	0.23	
Creigiau Rhiwledyn / Little Ormes Head	0.36	
Crymlyn Burrows (saltmarsh only – no intertidal features)	2.35	
Cynffig / Kenfig	7.77	
Dale and South Marloes Coast	2.90	
De Porth Sain Ffraid / St Bride's Bay South	1.35	
Dee Estuary / Aber Afon Dyfrdwy (saltmarsh and intertidal features)	74.08	
Dyfi (saltmarsh and intertidal features)	37.95	
East Aberthaw Coast	0.68	
Flat Holm	0.35	
Freshwater East Cliffs to Skrinkle Haven	1.40	
Glanllynau a Glannau Pen-Ychain i Gricieth	1.43	
Glannau Aberdaron	3.04	
Glannau Penmon - Biwmares	1.71	
Glannau Porthaethwy	0.68	
Glannau Rhoscolyn (saltmarsh and intertidal features)	1.45	
Glannau Tonfanau i Friog	1.71	
Glannau Ynys Gybi: Holy Island Coast	4.01	
Glaslyn (saltmarsh only – no intertidal features)	4.35	
Gower Coast: Rhossili to Porteynon	3.62	
Grassholm / Ynys Gwales	0.12	

6. SSSI with Notified or Qualifying Intertidal Marine Features (NB Sites may also have Notified or Qualifying Saltmarsh - see number 7 below for separate list of saltmarsh only sites)	Welsh waters covered (Cartesian Area (km²))	English and Welsh waters covered (Cartesian Area (km²))
Gronant Dunes and Talacre Warren (saltmarsh and intertidal features)	5.19	
Gwydir Bay	0.55	
Hook Wood (saltmarsh only – no intertidal features)	0.12	
Horton, Eastern and Western Slade	0.54	
Lydstep Head to Tenby Burrows	2.01	
Merthyr Mawr (saltmarsh and intertidal features)	4.78	
Milford Haven Waterway (saltmarsh and intertidal features)	21.92	
Monknash Coast	1.29	
Morfa Dyffryn (saltmarsh and intertidal features)	7.41	
Morfa Harlech (saltmarsh and intertidal features)	22.20	
Morfa Uchaf Dyffryn Conwy (saltmarsh only – no intertidal features)	1.95	
Mynydd Penarfynnydd	1.61	
Mynydd Tir Y Cwmwd a'r Glannau at Garreg Yr Imbill	1.65	
Newborough Warren - Ynys Llanddwyn (saltmarsh and intertidal features)	23.43	
Newport Cliffs	0.48	
Oxwich Bay (saltmarsh only – no intertidal features)	4.07	
Pen y Gogarth / Great Ormes Head	3.30	
Penard Valley (saltmarsh only – no intertidal features)	0.32	
Penarth Coast	0.88	
Penrhynoedd Llangadwaladr	1.77	
Porth Ceiriad Porth Neigwl ac Ynysoedd Sant Tudwal	5.59	
Porth Dinllaen i Borth Pistyll	1.29	
Porth Towyn i Borth Wen	0.74	
Puffin Island / Ynys Seiriol	0.31	
Pwll-Du Head and Bishopston Valley	1.60	
Ramsey / Ynys Dewi	2.97	
Rhosneigr Reefs	0.28	
Severn Estuary (saltmarsh and intertidal features)	68.54	
Skokholm	1.16	
Skomer Island and Middleholm	3.32	
Southerndown Coast	1.53	
St. David's Peninsula Coast	6.86	
St. Margaret's Island	0.11	
Stackpole	3.14	
Stackpole Quay - Trewent Point	0.64	
Strumble Head - Llechedafad Cliffs	2.05	
Sully Island	0.11	
Tenby Cliffs and St. Catherine's Island	0.47	
The Offshore Islets of Pembrokeshire / Ynysoedd Glannau Penfro	0.29	
The Skerries	0.17	
Tiroedd a Glannau Rhwng Cricieth ac Afon Glaslyn	5.77	
Traeth Lafan	26.91	
Traeth Llanon	0.27	
Traeth Lligwy	0.27	
Twyni Chwitfordd Morfa Landimor a Bae Brychdwn / Whiteford Burrows etc (saltmarsh and intertidal features)	13.96	
Twyni Lacharn - Pentywyn / Laugharne – Pendine Burrows	23.02	
Ty Croes	0.28	
Twyn Aberffraw (saltmarsh only – no intertidal features)	3.70	
Waterwynch Bay to Saundersfoot Harbour	0.87	

6. SSSI with Notified or Qualifying Intertidal Marine Features continued (NB Sites may also have Notified or Qualifying Saltmarsh - see number 7 below for separate list of saltmarsh only sites)	Welsh waters covered (Cartesian Area (km²))	English and Welsh waters covered (Cartesian Area (km²))
Wig Bach a'r Glannau i Borth Alwm	0.44	
Y Foryd	2.83	
Ynys Enlli	2.06	
Ynys Feurig	0.25	
Ynysoedd Y Gwylanod, Gwylan Islands	0.05	
Number of SSSI 103, Total area (km²) =	662.03	
7. Saltmarsh sites (terrestrial - no intertidal features - included in 6. above)		
Aber Taf / Taf Estuary (saltmarsh only – no intertidal features)	15.00	
Afon Dyfrdwy / River Dee (saltmarsh only – no intertidal features)	14.91	
Afon Teifi (saltmarsh only – no intertidal features)	7.78	
Afon Tywi (saltmarsh only – no intertidal features)	13.14	
Crymlyn Burrows (saltmarsh only – no intertidal features)	2.35	
Glaslyn (saltmarsh only – no intertidal features)	4.35	
Hook Wood (saltmarsh only – no intertidal features)	0.12	
Morfa Uchaf Dyffryn Conwy (saltmarsh only – no intertidal features)	1.95	
Oxwich Bay (saltmarsh only – no intertidal features)	4.07	
Penard Valley (saltmarsh only – no intertidal features)	0.32	
Tywyn Aberffraw (saltmarsh only – no intertidal features)	3.70	
Number of SSSI exclusively saltmarsh sites = 11, Total area (km²) =	67.69	
8. SSSI with Notified or Qualifying Intertidal Marine Features that are not in SAC or SPA (included in 6. above)		
Afon Dyfrdwy / River Dee (saltmarsh only – no intertidal features)	14.91	
Allt Wen a Traeth Tanybwllch	0.36	
Beddmanarch - Cymyran (saltmarsh and intertidal features)	8.91	
Blackpill, Swansea	4.54	
Bracelet Bay	0.06	
Caswell Bay	0.63	
Coedydd Afon Menai	0.23	
Craigyfulfran & Clarach	0.25	
Creigiau Aberarth-Morfa	0.20	
Creigiau Cwm-Ceriw a Ffos-Las (Morfa Bychan)	0.32	
Creigiau Pen y graig	0.23	
Crymlyn Burrows (saltmarsh only – no intertidal features)	2.35	
East Aberthaw Coast	0.68	
Glannau Rhoscolyn (saltmarsh and intertidal features)	1.45	
Glannau Ynys Gybi: Holy Island Coast	4.01	
Glaslyn (saltmarsh only – no intertidal features)	4.35	
Gwydir Bay	0.55	
Hook Wood (saltmarsh only – no intertidal features)	0.12	
Monknash Coast	1.29	
Morfa Uchaf Dyffryn Conwy (saltmarsh only – no intertidal features)	1.95	
Newport Cliffs	0.48	
Penard Valley (saltmarsh only – no intertidal features)	0.32	
Mynydd Penarfynnydd	1.61	
Rhosneigr Reefs	0.28	
Southerndown Coast	1.53	
St. Margaret's Island	0.11	
Strumble Head - Llechedafad Cliffs	2.05	
Traeth Llanon	0.27	

8. SSSI with Notified or Qualifying Intertidal Marine Features that are not in SAC or SPA (included in 6. above)	Welsh waters covered (Cartesian Area (km ²))	English and Welsh waters covered (Cartesian Area (km ²))
Traeth Lligwy	0.27	
Ty Croes	0.28	
Number of SSSI not in SAC or SPA = 28, Total area (km²) =	54.57	

Annex 2: Map of Marine Protected Areas in Welsh waters



Annex 3. Derivation of summary statistics

The suite of EMS encompasses 125 SACs, SPAs and Ramsar sites with marine components and SSSIs with marine or intertidal features. Saltmarsh as a feature of SSSI has led to the inclusion of eleven SSSI sites within the suite of MPAs that would otherwise be classified as terrestrial. Saltmarsh sites are noted in Annex 1, List 7.

Calculations of summary statistics do not include areas of SACs, SPAs, Ramsar or SSSIs that extend shoreward above Mean High Water. Where designated sites overlap, only non-overlapping portions of SPAs and SSSIs that lie outside of SACs have been used in calculations to avoid double-counting.

Welsh waters, for the purpose of this report, have included both the intertidal region: Mean High Water to Mean Low Water, and the Welsh territorial sea region below Mean Low Water out to 12 nautical mile boundary. For consistency, Cartesian areas (calculated using MapInfo GIS), as shown in Annex 1, rather than registered areas of sites have been used to produce summary statistics. Registered areas and other site information can be obtained from: [Weblink to CCW Designated Site Search](#)